**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Dyddiad:** **13 Ionawr 2022**
**Lleoliad:** **Y Senedd, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23**

## 1. Diben

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi cytuno i fynd i gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 13 Ionawr 2022, i roi tystiolaeth ar eu cynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft.

## 2. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gynigion cyllideb Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022-23. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, fel yr amlinellwyd mewn llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar 8 Tachwedd.

## 3. Trosolwg o'r Gyllideb

| | **2022-23** |
|---|---|
| **Refeniw** | **£m** |
| Llinell Sylfaen y Refeniw fel yr oedd yng Nghyllideb Derfynol 2021-22 | 9,227.959 |
| Addasiadau i'r Llinell Sylfaen | (445.000) |
| Dyraniad MEG | 1,018.819 |
| **DEL diwygiedig fel yr oedd yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23** | **9,801.778** |
| | |
| **Cyfalaf** | |
| Llinell Sylfaen y Cyfalaf fel yr oedd yng Nghyllideb Derfynol 2021-22 | 387.600 |
| Addasiad i'r Llinell Sylfaen | (52.600) |
| **DEL diwygiedig fel yr oedd yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23** | **335.000** |
| **Cyfanswm Cyllideb Ddrafft 2022-23 yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **10,136.778** |

*Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol, sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru.*

Mae manylion yr holl drosglwyddiadau i'w gweld yn Atodiad A y papur hwn.

## 4. Sut cafodd cynigion y Gyllideb eu llunio

Mae'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y refeniw craidd a'r cyllid cyfalaf ar gyfer GIG Cymru, ynghyd â chyllid i gefnogi iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a phlant. Mae'n cefnogi ein hamcanion llesiant i ddarparu gofal iechyd cynaliadwy, effeithiol o ansawdd uchel, ac i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed. Mae hefyd yn cefnogi'r broses o roi Cymru Iachach ar waith, sef ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfnod o dair blynedd rhwng 22-23 a 24-25. Mae'r setliad yn gwyro'n drwm at ddechrau'r cyfnod, gyda chynnydd llawer mwy yn 2022-23 a chynnydd cymharol is yn yr ail a'r drydedd flwyddyn.
Nid oes dyraniadau penodol ar gyfer Covid, ond mae setliadau MEG wedi cael eu hasesu drwy'r broses pennu cyllideb, gyda sêl bendith i roi blaenoriaeth i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, cyllid ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol; ac i gynnal adolygiad cwbl gynhwysfawr o gyfalaf i gysoni cyllidebau cyfalaf â'r Strategaeth newydd ar gyfer Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Bydd yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu o linell sylfaen bresennol y refeniw, sef £8.597 biliwn, i £10.05 biliwn erbyn 2024-25.

Mae setliad yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu ar gyfer £824m o gynnydd yng nghyllidebau llinell sylfaen refeniw'r GIG yn 2022-23, gyda £250m o gynnydd pellach yn 2023-24 a £200m yn 2024-25.

Yn ogystal â'r £824m o gynnydd yng nghyllid y GIG a ddyrannwyd ar gyfer 22-23, mae setliad yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cynnwys dyraniadau penodol ar gyfer:

- Iechyd meddwl – £50m, gan gynyddu i £90m erbyn 24-25
- Gofal cymdeithasol – £45m, gan gynyddu i £60m erbyn 24-25 a;
- Gofal plant a'r blynyddoedd cynnar – £28m, gan gynyddu i £30m erbyn 24-25.

*(Mae rhagor o wybodaeth am y meysydd hyn ar gael isod)*

Bydd y buddsoddiad craidd yn y GIG yn cynyddu £1.274bn yn ychwanegol yn y gyllideb hon, gan godi cyfanswm ein buddsoddiad sylfaenol yn 2024-25 i £9.683bn. Bydd y cynnydd sylweddol hwn yn rhoi sylfaen i'r GIG wrth iddo barhau i ymateb i'r pandemig, ac yn help i fynd i'r afael â'r effaith ddilynol ar iechyd a llesiant.

Mae cyllid refeniw rheolaidd o £150m ar gyfer adferiad y GIG eisoes wedi cael ei neilltuo o’r cynnydd yng nghyllid y GIG; bydd hyn, ynghyd ag £20m o gyllidebau sylfaenol, yn arwain at £170m y flwyddyn ar gyfer adferiad yn ystod cyfnod y gyllideb hon. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i’r GIG i helpu i roi cynlluniau ar waith i gryfhau gwasanaethau gofal wedi’i gynllunio.

I ddangos ein hymrwymiad pellach i fynd i’r afael ag effaith y pandemig ar ofal rheolaidd, byddwn yn buddsoddi £20m arall bob blwyddyn i helpu i weithredu dull o adfer sy’n seiliedig ar werth yn y tymor canolig, a fydd yn rhoi pwyslais ar wella canlyniadau sy’n bwysig i gleifion. Bydd y dyraniad hwn yn helpu i adfer y GIG, gyda phwyslais ar ddarparu ymyriadau gwerthfawr sy’n sicrhau gwell canlyniadau i gleifion ac yn cefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau, ac yn lleihau’r amseroedd aros am driniaeth yn y tymor canolig. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau canlyniadau sy’n bwysig i gleifion, a bydd yn ategu’r gwaith o weithredu cynlluniau sy’n cael eu datblygu ar hyn o bryd i ddelio â’r cleifion sy’n aros am driniaeth.

Mae’r buddsoddiadau hyn, gyda’i gilydd, yn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein hymrwymiad i fuddsoddi £1bn ar gyfer adferiad y GIG yn ystod y Senedd hon.

Byddwn hefyd yn dyrannu £180m yn rheolaidd o 2022-23 ymlaen i helpu’r GIG i reoli effaith ariannol y pandemig ar ei sefyllfa ariannol sylfaenol, gan gynnwys cydnabod effaith y pandemig ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Rydym yn disgwyl i’r GIG ddychwelyd i'r lefelau effeithlonrwydd a welwyd cyn y pandemig wrth i effaith COVID ar wasanaethau craidd leihau.

Er bod dyfodol pandemig y coronafeirws yn dal yn ansicr iawn, rydym wedi neilltuo cyllid yn y gyllideb hon ar gyfer ymyriadau Covid parhaus – yn benodol, olrhain cysylltiadau, profi, brechu torfol, a darparu cyfarpar diogelu personol i’r GIG ac i’r maes gofal cymdeithasol. Bydd y cyllid hwn yn cael ei adolygu’n gyson wrth i ni ddelio â heriau presennol y pandemig.

Bydd £31m yn fwy o gyllid i gefnogi’r cynllun comisiynu Addysg a Hyfforddiant, gan fuddsoddi yng ngweithlu’r dyfodol yng Ngwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru. Byddwn ni hefyd yn parhau i ddarparu £7m tuag at gyflawni ein hymrwymiad i sefydlu ysgol feddygol newydd yng Ngogledd Cymru.

Rydym hefyd yn buddsoddi cyfanswm o dros £800m o gyfalaf cyffredinol ar gyfer Seilwaith Digidol, Cyfarpar y GIG, a Seilwaith y GIG hyd at 2024-25.

## Y Rhaglen Lywodraethu

Mae’r Rhaglen Lywodraethu wedi llywio’r ffordd rydym wedi pennu’r gyllideb, gyda dyraniadau sylweddol o’r gyllideb yn mynd tuag at rai o’n prif ymrwymiadau ar adfer y GIG, cymorth Iechyd Meddwl, Gofal Plant, Gofal Cymdeithasol a’r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

<u>Adfer y GIG</u>
Roedd rhaglen adfer y GIG wedi dechrau eleni, gyda dyraniad o £200m o refeniw a £48m o gyfalaf yn 21-22. Yn ychwanegol at hyn, cafwyd ymrwymiad cynnar o £150m o gyllid refeniw rheolaidd ar gyfer yr adferiad, sydd eisoes wedi cael ei glustnodi yn y cynnydd yng nghyllid y

GIG. Cafodd hyn ei ychwanegu at £20m o gyllidebau sylfaenol, gan wneud cyfanswm refeniw rheolaidd o £170m y flwyddyn ar gyfer adfer gofal wedi'i gynllunio.
Yn ychwanegol at y buddsoddiad hwn, bydd £20m arall ar gael ar sail reolaidd o 2022-23 ymlaen er mwyn helpu i adfer y GIG, gyda phwyslais ar ddarparu ymyriadau gwerthfawr sy'n sicrhau gwell canlyniadau i gleifion ac yn cefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau, ac yn lleihau'r amseroedd aros am driniaeth yn y tymor canolig.
Wrth gyfuno'r rhain i gyd, bydd cyfanswm o £818m wedi cael ei ddyrannu tuag at adferiad y GIG dros 4 o 5 mlynedd y llywodraeth bresennol.

Iechyd Meddwl
Byddwn ni'n parhau i flaenoriaethu iechyd meddwl a llesiant yn 2022-23, ac rydym yn darparu £50m ychwanegol i gefnogi hyn. Er y bydd y ddarpariaeth hon yn cynorthwyo gwasanaethau iechyd meddwl rheng flaen yn bennaf, ac yn cyfrannu hefyd at atal salwch meddwl ym maes camddefnyddio sylweddau, atal cychwynnol yng nghyd-destun iechyd y cyhoedd, a chymorth ar gyfer cyflogadwyedd, mae angen ystod lawer ehangach o gyllidebau trawslywodraethol i gefnogi'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i helpu iechyd meddwl a llesiant y genedl.

Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar
O fewn dyraniad yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae yna gyllid ychwanegol o £28m yn 22-23 ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, a bydd hyn yn cynyddu i £30m ar sail reolaidd o 23-24 ymlaen. Mae hyn yn rhan o becyn cyllid ar gyfer Plant a Theuluoedd, sydd hefyd yn cynnwys Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn yr MEG Tai a Llywodraeth Leol. Gyda'i gilydd, ar draws y ddau MEG mae yna £50m o gyllid ychwanegol yn 22-23, a bydd hyn yn cynyddu i £70m erbyn 24-25.

Yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd y £28m ychwanegol yn 22-23 yn cael ei dyrannu i gefnogi'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i'r maes Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae'r ymrwymiad hwnnw'n cynnwys helpu mwy o deuluoedd gyda chostau gofal plant pan fydd y rhieni mewn addysg a hyfforddiant, a chynyddu darpariaeth y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy oed, gyda phwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ochr yn ochr â'r effeithiau ar y blynyddoedd cynnar, rydym hefyd wedi cydnabod yr effaith anghymesur ar y rhywiau, yn enwedig mewn perthynas â gofal plant. Mae ein Cynnig Gofal Plant eisoes yn darparu 30 awr o addysg a gofal plant a ariennir am 48 wythnos y flwyddyn i rieni sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed.

Gofal Cymdeithasol – Y Gronfa Ddiwygio
Mae cronfa newydd ar gyfer Diwygio Gofal Cymdeithasol, sydd werth £45m, wedi cael ei chreu. Bydd y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol yn cynyddu i £55m yn 2023-24 ac i £60m yn 2024-25, a bydd yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i hybu'r broses o ddiwygio a gwella gofal cymdeithasol, i gyd-fynd â'r cynnydd a ddarperir yn y setliad Llywodraeth Leol. Byddwn yn defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi'r diwygiadau a nodwyd yn dilyn ein Papur Gwyn 'Ailgydbwyso Gofal a Chymorth', er mwyn gwella'r ddarpariaeth a gwella cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y sector gofal cymdeithasol.

Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i helpu i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.

Y Cyflog Byw Gwirioneddol i Weithwyr Cymdeithasol
Un o'n prif addewidion yn y Rhaglen Lywodraethu oedd talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol. Rydym yn cymryd y camau angenrheidiol yn awr i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Mae darparwyr gofal cymdeithasol yn dal i wynebu heriau sylweddol o ran recriwtio a chadw pobl sydd â'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r rolau pwysig hyn. Mae gwella telerau ac amodau'r gweithlu yn gam pwysig tuag at wella prosesau recriwtio a chadw staff.

Gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig mewn gwasanaethau oedolion a phlant fydd yn cael y cynnydd. Hynny yw, gweithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal. Y bwriad yw y bydd hefyd yn cyrraedd cynorthwywyr personol sy'n cael eu hariannu drwy daliadau uniongyrchol.

Rydym wedi darparu cyllid, drwy'r setliad llywodraeth leol a thrwy gyllideb yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i alluogi awdurdodau lleol a chomisiynwyr byrddau iechyd i ddechrau cynyddu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Bydd y cyllid ar gael o fis Ebrill 2022 ymlaen, gyda gweithwyr yn dechrau teimlo'r budd yn y misoedd canlynol.

Yn y Flwyddyn Newydd, byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid – gan gynnwys comisiynwyr awdurdodau lleol, arweinwyr gofal cymhleth ac eraill – i ddeall a delio â'r holl fanylion hynny ynghylch sut bydd yr ymrwymiad yn cael ei roi ar waith.

## Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

### *Blaenoriaethu atal/ymyrraeth gynnar ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

Canolbwynt y gyllideb hon yw diogelu poblogaeth Cymru drwy barhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau GIG craidd ar gyfer yr hirdymor. Rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy ac yn cynyddu'r buddsoddiad hwnnw. Sicrhau sefydlogrwydd hirdymor ein gwasanaethau iechyd a gofal yw ein blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad ataliol yn y gyllideb hon.

Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG, sydd hefyd yn Gyfarwyddyd y Gweinidog i'r GIG, bob amser yn ceisio cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pharhau i gryfhau sut mae sefydliadau'n gweithio i gyflawni eu cynlluniau gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio. Ers dechrau'r pandemig bu ffocws pendant hefyd ar bedwar niwed, sef y cyd-destun ansawdd allweddol y mae'n rhaid darparu gwasanaethau a gofal o'i fewn. Ym mis Mehefin 2021, ar gyngor y Gell Cyngor Technegol, cafodd pumed niwed ei gydnabod hefyd – cyflwyno anghydraddoldebau newydd neu waethygu'r rhai presennol, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol oherwydd COVID-19.

Mae pob niwed yn berthnasol i lesiant cenedlaethau'r dyfodol, ond mae'r angen i atal niwed "yn sgil camau gweithredu cymdeithasol ehangach/cyfyngiadau symud", ynghyd â'r pumed niwed newydd sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau, yn darparu cyd-destun ehangach a thymor hwy i gynllunio ac i fuddsoddi mewn iechyd a gofal cymdeithasol.




Harm from new or existing inequalities, either directly or indirectly from COVID-19.

Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG yn nodi disgwyliad y bydd dull eang o atal yn cael ei ddefnyddio ym mhob agwedd ar gynllunio. Caiff hyn ei gefnogi gan bolisi Llywodraeth Cymru sydd wedi'i nodi o safbwynt atal, boed hwnnw'n safbwynt iechyd cyhoeddus mwy traddodiadol neu mewn gofal heb ei drefnu neu ofal wedi'i gynllunio. Mae Cynlluniau Tymor Canolig Integredig Byrddau Iechyd, er enghraifft, hefyd yn ystyried atal o ran modelau gofal a datgarboneiddio, gan gynnwys cynlluniau teithio llesol.

Yn y pen draw, bydd dulliau ataliol o ymdrin â phob math o iechyd a llesiant corfforol a meddyliol yn atal cyflyrau a salwch rhag gwaethygu. Rhaid ystyried cyfleoedd ar gyfer buddsoddi a fydd yn cefnogi cenedlaethau'r dyfodol ac yn sail ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.  Yn anffodus, rydym wedi dysgu drwy gydol yr argyfwng iechyd cyhoeddus hwn fod y rheini sydd â chyflyrau isorweddol wedi dioddef yn anghymesur. Dylai'r hyn a ddysgwn o COVID ddarparu'r sylfeini i weithredu mentrau ataliol sy'n gallu dylanwadu ar leihau'r pum niwed.

Ein nod yw cymryd camau sylweddol i newid ein hagwedd o drin i atal.  Y weledigaeth a sefydlwyd gennym yn *Cymru Iachach* yw canolbwyntio mwy ar atal ac ymyrraeth gynnar.

**Cyfalaf**

Bydd cyllideb gyfalaf gyffredinol y GIG ar gyfer 2022-23 yn gostwng £48m i £335m, o'r £383m a ddarparwyd yn 2021-22.  Mae'n bwysig nodi bod y ffigur is hwn ar gyfer 2022-23 yn cynnwys £50m a nodwyd ar gyfer Gofal Cymdeithasol, sydd heb gael cyllid cyfalaf o'r blaen drwy'r gyllideb hon.  O ganlyniad, mae cyllideb gyfalaf benodol y GIG wedi gostwng £98m wrth gymharu â sefyllfa 2021-22 – 26% o ostyngiad.  Bydd y cyllid cyfalaf a fydd ar gael yn dal i gael ei fuddsoddi mewn seilwaith i helpu i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a hygyrch o ansawdd uchel, ac i fwrw ati i drawsnewid y ddarpariaeth gofal iechyd.

Bydd y gronfa gyfalaf newydd ar gyfer gofal cymdeithasol – sydd werth £50m – yn helpu i gyflawni ymrwymiadau allweddol y rhaglen lywodraethu, gan gynnwys datblygu 50 o hybiau cymunedol lleol a chryfhau'r trefniadau i helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ac ailgydbwyso'r ystad gofal preswyl. Bydd y dyraniad cyfalaf hwn ar gyfer gofal cymdeithasol yn galluogi Llywodraeth Cymru i gael dylanwad uniongyrchol ar drawsnewid y seilwaith gofal cymdeithasol, yn unol â dyheadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a 'Cymru Iachach'.

Bydd buddsoddiadau cyfalaf yn y GIG y flwyddyn nesaf yn cynnwys y gwaith i adnewyddu a moderneiddio Ysbyty'r Tywysog Siarl, ynghyd â'r buddsoddiad parhaus mewn cynlluniau gofal sylfaenol a gofal cymunedol ledled Cymru i ddatblygu cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal integredig.

Bydd y dyraniad cyfalaf is yn cyfyngu'r cyfleoedd sydd ar gael i'r GIG o ran datgarboneiddio ond, pan fydd yn bosibl, bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cynnwys yn nyluniadau cynlluniau felly byddwn yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn y targed sero net.  Bydd cynlluniau sy'n gallu sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn carbon yn cael eu targedu drwy gydweithio â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Garbon.

**Atodiad: cais am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2022-23**

Sylwadau ar gamau gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL).

1. Dadansoddiad o ddyraniadau'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022-23 yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb.

2. Dyraniadau dangosol yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022-23.

3. Sylwebaeth ar bob un o'r Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2022-23 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 (Mehefin 2021).

4. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r dadansoddiad ddweud pa newidiadau, os o gwbl, sy'n adnoddau ychwanegol sy'n benodol ar gyfer yr ymateb i COVID yn 2021-22 (cyllid canlyniadol a gwarantedig gan Lywodraeth y DU).

Edrychwch ar yr atodiad sydd ynghlwm sy'n rhoi sylw i'r ceisiadau uchod.

**Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol**
**5.** Rhowch yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol cyffredinol byrddau iechyd. Dylai gynnwys:

a. Y rheini sy'n dal i fethu cyflawni eu dyletswyddau ariannol.

b. Y rheini sydd wedi cael cymorth ariannol ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn.

c. Manylion am sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gweithio gyda'r byrddau iechyd hynny i fynd i'r afael â heriau tymor byr, i wella eu sefyllfa gyffredinol, ac i wneud gwelliannau cynaliadwy.

Ac eithrio Byrddau Iechyd Hywel Dda a Bae Abertawe, roedd holl sefydliadau eraill y GIG wedi llwyddo i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020-21. Yr alldro net ar gyfer GIG Cymru yn 2020-21 oedd diffyg o £48m, sy'n well na'r diffyg o £89m a gofnodwyd ar ddiwedd 2019-20. Mae'r gwelliant hwnnw'n deillio o'r ffaith bod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi llwyddo i fantoli'r gyllideb am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, yn dilyn y pecyn o gymorth strwythurol a gyhoeddwyd gan y cyn-Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Tachwedd 2020.

Roedd pedwar Bwrdd Iechyd wedi methu cyflawni eu dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd ar ddiwedd 2020-21. Yn ogystal â Byrddau Iechyd Hywel Dda a Bae Abertawe, roedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi methu cyflawni'r ddyletswydd oherwydd ei ddiffyg yn 2018-19. Ar yr amod y bydd wedi mantoli'r gyllideb, fel y rhagwelir, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol hon, bydd wedi cyflawni ei ddyletswydd i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd ar ddiwedd 2021-22. Rhagwelir y bydd Bwrdd Iechyd Betsi

Cadwaladr hefyd yn mantoli'r gyllideb yn 2021-22, ond eto bydd yn methu cyflawni ei ddyletswydd tair blynedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon oherwydd y diffyg yn 2019-20.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru £16m o gymorth ariannol strategol i Fwrdd Iechyd Hywel Dda yn 2020-21 i dalu am y diffyg. Yn unol â chyhoeddiad y cyn-Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2020, ni fydd y cymorth hwn yn cael ei ad-dalu.

Yr amcan yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf fu sicrhau bod gan sefydliadau'r GIG yr arian yr oedd ei angen arnynt i ymateb i bandemig Covid-19, ac felly i gynnal neu wella'r sefydlogrwydd ariannol. Darparodd Llywodraeth Cymru £1.1bn o gyllid refeniw ychwanegol i'r GIG yn 2020-21, ac mae wedi dyrannu £1.1bn arall yn 2021-22. Mae hyn wedi galluogi pob sefydliad i gynnal neu wella sefyllfa ariannol 2019-20 cyn effaith y pandemig. Ac eithrio Byrddau Iechyd Hywel Dda a Bae Abertawe, rhagwelir y bydd pob sefydliad eto yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu pob math o gymorth i holl sefydliadau'r GIG i reoli'r heriau tymor byr, yn ogystal â chanolbwyntio ar gynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig a'r tymor hir. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys y canlynol:

- Gyda chefnogaeth Uned Cyflawni Ariannol y GIG, rydym yn parhau i ddatblygu a gwella ein systemau monitro a chynllunio ariannol. Mae hyn yn cynnwys darparu rhagdybiaethau cynllunio clir a chyson, monitro misol, ac adolygiadau canol blwyddyn i gadarnhau'r rhagolygon.
- Fforymau misol â chydweithwyr i Gyfarwyddwyr Cyllid y GIG, swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Uned Cyflawni Ariannol, i gadw llygad ar risgiau a phroblemau sy'n dod i'r amlwg a'u rheoli
- Cynhyrchu a datblygu gwybodaeth ar lefel systemau am gyfleoedd i wella'r defnydd o adnoddau, gan gydnabod rhai o'r cyfyngiadau yn sgil y pandemig i allu trosi'r cyfleoedd hyn yn arbedion realistig yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rydym yn disgwyl i sefydliadau gynnal neu wella eu rhagolygon o gyflawni arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol wrth symud ymlaen, ac rydym yn bwriadu ymestyn y systemau cenedlaethol i helpu i gyflawni'r disgwyliad hwnnw.
- Pan fydd angen, mae'r Uned Cyflawni Ariannol yn darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer sefydliadau unigol sydd angen mwy o gymorth.
- Mae Grŵp Arweinyddiaeth Ariannol ar faterion Gwerth wedi cael ei sefydlu, o dan arweiniad yr Uned Cyflawni Ariannol, ac mae Cyfarwyddwyr Cyllid pob Bwrdd Iechyd yn aelodau ohono. Mae'r Grŵp hwn yn darparu arweiniad ar y cyd i gyflwyno dull gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yn y broses o ddatblygu a gweithredu cynlluniau, gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau i gleifion drwy ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy.

Rydym yn disgwyl cael cynlluniau'r GIG ar gyfer 2022-23 i 2024-25 erbyn diwedd mis Chwefror 2022. Mae ein pecyn o gymorth ariannol i'r GIG sydd wedi cael ei amlinellu yn y gyllideb hon, a'i gadarnhau yn y dyraniad refeniw, yn rhoi sefydlogrwydd ariannol i'r GIG a hefyd yn helpu adferiad y GIG ac ymrwymiadau eraill y Rhaglen Lywodraethu. O ganlyniad i

hynny, rydym yn disgwyl i sefydliadau ddatblygu cynlluniau tymor canolig ariannol sy'n gynaliadwy ac y gellir eu cymeradwyo.

**6.** Nodwch lefel y cronfeydd wrth gefn ar gyfer iechyd a ddyrannwyd yn y Gyllideb Ddrafft, a sut rydych chi'n rhag-weld y bydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio.

Nid ydym wedi dyrannu cronfeydd wrth gefn ar gyfer iechyd yn y gyllideb hon. Bydd yr holl gyllid yn cael ei ddefnyddio i sicrhau sefydlogrwydd ariannol i'r GIG, i dalu costau parhaus yr ymateb i'r pandemig, ac i helpu i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn cadw cyllid yn ganolog o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i helpu gyda'r diffygion yng nghynlluniau Byrddau Iechyd Hywel Dda a Bae Abertawe ar gyfer 2022-23.

**7.** Eglurwch eich disgwyliadau o sut dylai byrddau iechyd geisio lleihau eu costau sefydlog, a pha ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i helpu gyda hyn.

Fel sydd wedi cael ei egluro uchod, rydym yn disgwyl i sefydliadau'r GIG gynllunio i sicrhau arbedion effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian o un flwyddyn i'r llall. Mae sefydliadau'n rhag-weld ar hyn o bryd y byddan nhw'n arbed dros £100m – sy'n cyfateb i tua 1.5% – yn 2021-22, er gwaethaf effaith barhaus y pandemig. Rydym yn disgwyl i sefydliadau gynllunio i gyflawni'r lefel hon o arbedion o leiaf yn 2022-23 ac yn y dyfodol.

Mae'r Uned Cyflawni Ariannol wedi datblygu pecyn cymorth i sefydliadau er mwyn iddyn nhw feincnodi eu costau a'u hallbynnau ar draws amrywiaeth eang o feysydd gwasanaeth. Maen nhw'n gweithio gyda Chyfarwyddwyr Cyllid i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i ddatblygu cynlluniau arbedion a fydd yn sail i'w cynlluniau ariannol tymor canolig. Hefyd, mae sefydliadau'n cael eu hannog i ddod o hyd i gyfleoedd datgarboneiddio uchelgeisiol sy'n gysylltiedig â phob cynllun cyfalaf. Mae'r cynlluniau hyn yn edrych ar sut gellir arbed cymaint â phosibl o arian a charbon.

**Effaith COVID-19 ar ddyraniadau**

**8.** Eglurwch sut mae'r pandemig wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau cyllideb yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a rhowch enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o ganlyniad i COVID-19. Wrth ateb y cwestiwn hwn, rhowch sylw i'r canlynol:

a. Y rhagdybiaethau a oedd yn sail i'r dyraniadau a wnaed o ganlyniad i'r pandemig.

b. Y dyraniadau sydd wedi cael eu gwneud i helpu i gynyddu capasiti gwasanaethau neu i gynyddu adnoddau staff wrth i'r ymateb i'r pandemig barhau, gan gynnwys gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac ysbytai, gofal cymdeithasol, iechyd y cyhoedd, a'r rhaglen frechu.

Fel sydd wedi cael ei nodi uchod, byddwn yn parhau i gynnal ein hymateb uniongyrchol i COVID gyhyd ag y bydd angen. Rydym yn neilltuo cyllid sylweddol i barhau â'n hymatebion cenedlaethol i'r pandemig, gan gynnwys y rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu, y rhaglenni

brechu, a darparu cyfarpar diogelu personol am ddim i’r maes iechyd a gofal cymdeithasol gyhyd ag y bydd angen. Bydd y cyllid hwn yn cael ei adolygu’n gyson wrth i ni ddelio â heriau presennol y pandemig.

Rydym wedi rhoi cynnydd sylweddol i'r GIG, a fydd yn rhoi sefydlogrwydd ariannol iddo wrth barhau i ymateb i’r pandemig. Gwneir buddsoddiad rheolaidd sylweddol yn y broses adfer hefyd, er mwyn galluogi’r GIG i ganolbwyntio o’r newydd ar ddelio â’r achosion sydd wedi cronni, pan fydd effaith y pandemig yn caniatáu hynny.

c. Y dyraniadau ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl i’r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Ym mis Ebrill 2020, roeddem wedi ehangu’r Gwasanaeth Iechyd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol Cymru. Mae staff sydd â symptomau gorbryder, iselder, anhwylder defnyddio alcohol, anhwylder straen wedi trawma a chyflyrau eraill yn gallu elwa o’r gwasanaeth a ddarperir. Ar ei ffurf wreiddiol, dim ond i feddygon y GIG yr oedd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu, ond ym mis Ebrill 2020 cafodd ei ehangu i gynnwys holl weithlu’r GIG mewn ymateb i Covid-19. Yn dilyn datblygiadau pellach yn ymwneud â chontractau, bydd y gwasanaeth yn cael ei ehangu ymhellach byth i’r sector gofal cymdeithasol ar gyfer 2022-2025, a bydd yn cael £4.5m o gyllid ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mae’r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar weithleoedd a gweithluoedd yng Nghymru. Wrth i’r pandemig barhau, un o’r prif flaenoriaethau yw cynnig cymorth, i unrhyw un sydd angen, ar gyfer eu llesiant corfforol a meddyliol yn y tymor byr a’r tymor hir. Mae’r rhaglen Cymru Iach ar Waith yn darparu cymorth cyffredinol, gan gynnwys cymorth penodol ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant, ar draws y sector cyhoeddus a’r sector preifat. Mae’r rhaglen wedi diweddaru a chryfhau’r cyngor a’r wybodaeth yn ddiweddar yng nghyd-destun y pandemig, ac mewn ymateb i wybodaeth o ddeunyddiau darllen sy’n amlinellu effeithiau sylweddol y pandemig ar lesiant meddyliol. Mae Cymru Iach ar Waith hefyd wedi datblygu podlediad ar lesiant meddyliol ar gyfer cyflogwyr i helpu i fynd i’r afael â’r prif heriau, ac mae’n egluro’r ffordd orau i gyflogwyr helpu gydag anghenion llesiant meddyliol eu gweithlu.  Mae £2.3m o gyllid yn cael ei ddyrannu i'r rhaglen ar gyfer 2020-2023.

d. Y dyraniadau sydd wedi cael eu gwneud i gynnal cyflenwad digonol a phriodol o gyfarpar diogelu personol.

Mae cyflenwi a dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol o safon uchel i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen yn dal yn rhan hollbwysig o’r ymateb byd-eang i bandemig COVID-19, a byddwn ni’n parhau i sicrhau bod digon o gyfarpar diogelu personol ar gael i ddiwallu ein hanghenion.  Yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfarpar diogelu personol am ddim i staff iechyd a gofal cymdeithasol gyhyd ag y bydd angen i ddelio â’r pandemig. Bydd hyn, ynghyd â chynnal cyflenwad wrth gefn y gellir ei ddefnyddio (16 wythnos ar hyn o bryd, ar sail y gyfradd uchaf yn ystod y pandemig), yn helpu i sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa gwbl gadarn i wrthsefyll tonnau COVID-19 a/neu bandemig yn y dyfodol.  Mae’n anodd rhag-weld y costau yn y dyfodol a fydd yn

gysylltiedig â'r ymrwymiad hwn, gan fod llawer iawn o bethau'n dibynnu ar drywydd y pandemig, newidiadau mewn canllawiau Atal a Rheoli Heintiau, yn ogystal â chyngor yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar baratoi ar gyfer pandemig yn y dyfodol. Rydym yn neilltuo cyllid i barhau â'n hymatebion cenedlaethol i'r pandemig, gan gynnwys darparu cyfarpar diogelu personol am ddim. Bydd y cyllid hwn yn cael ei adolygu'n gyson wrth i ni ddelio â heriau presennol y pandemig.

**Mynd i'r afael â'r amseroedd aros ar gyfer achosion sydd wedi cronni**

**9.** Rhowch fanylion ynghylch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn helpu i ddarparu gofal mwy rheolaidd, ac yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r amseroedd aros ar gyfer achosion sydd wedi cronni. Dylai hyn gynnwys sut bydd unrhyw gyllid canlyniadol a gwarantedig gan Lywodraeth y DU yn cael ei ddefnyddio.

Fel y nodwyd uchod, rydym wedi dyrannu £170m o gyllid refeniw yn rheolaidd o 22-23 ymlaen, yn ogystal ag £20m a fydd yn canolbwyntio ar ymyriadau gwerthfawr.

Wrth gyfuno'r rhain â'r dyraniadau yn 21-22, bydd cyfanswm o £818m wedi cael ei ddyrannu tuag at adferiad y GIG dros 4 o 5 mlynedd y llywodraeth bresennol.

Ein nod yw canolbwyntio ar waith cyflym, clir a phenodol, yn gyntaf i sefydlogi'r cynnydd presennol yn nifer yr achosion, ac wedyn i drin y cleifion niferus sy'n aros am adolygiad, asesiad a thriniaeth.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Trawsnewid gwasanaethau, i gyflawni'n awr ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ar sail egwyddorion darbodus ac sy'n seiliedig ar werth, gan gynnwys datblygu hybiau rhanbarthol
- Sicrhau bod lefelau gweithgarwch y GIG yn dychwelyd i'r lefelau oedden nhw cyn y pandemig, ac wedyn yn gwella ar hynny
- Cynyddu a chryfhau argaeledd ac arbenigedd y gweithlu gymaint â phosibl
- Datblygu ar lefel leol a rhanbarthol y gallu i ddarparu diagnosis a thriniaeth, gan gynnwys addasu, newid diben, ac ychwanegu seilwaith
- Gallu gweithio gyda darparwyr eraill er mwyn gallu cael mynediad cyflymach at gyfleusterau ac, mewn rhai achosion, staff
- Cynlluniau gweithlu integredig sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd recriwtio (domestig a thramor) a ffyrdd arloesol o ddatblygu ac ehangu'r gweithlu presennol, gan gefnogi llesiant ar yr un pryd
- Mwy o gomisiynu a chyfalaf.

Pwrpas y £248 miliwn a ddyrannwyd yn 2021-22 (£200m o refeniw a £48m o gyfalaf) yw helpu byrddau iechyd i leihau nifer y cleifion sy'n aros am wasanaeth, sydd wedi cynyddu oherwydd y pandemig. Mae byrddau iechyd wedi bod yn gweithio i leihau'r niferoedd hyn drwy ddefnyddio

darparwyr eraill, naill ai drwy roi gwaith allanol i ddarparwyr annibynnol, neu drwy ddefnyddio cwmnïau mewnol i wneud y gwaith yn lleol.  Mae byrddau iechyd hefyd wedi defnyddio eu staff eu hunain mewn cyfleusterau annibynnol lleol, gan fod y rhain yn llwybrau gwyrdd diogel ar gyfer gwasanaethau, ac maen nhw wedi llogi unedau symudol sydd wedi cael eu defnyddio i roi nifer o driniaethau i gleifion allanol.  Mae rhai o'r camau gweithredu hyn yn 21-22 wedi bod yn rhai tymor byr, a gwyddom nad ydynt wedi bod yn ddigon i wneud iawn am y capasiti a gollwyd oherwydd COVID-19. Gan fod cyllid rheolaidd wedi cael ei gadarnhau ar gyfer yr adferiad, gall Byrddau Iechyd gynllunio'n effeithiol yn awr ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hwy.

Dros y 18 mis diwethaf, mae nifer o gamau trawsnewidiol wedi cael eu rhoi ar waith, gyda mwy o apwyntiadau cleifion allanol yn cael eu cynnal ar-lein a sesiynau grŵp yn cael eu cynnal i helpu i leihau rhestrau aros.  Fodd bynnag, bydd angen cynyddu maint a chwmpas y newidiadau hyn er mwyn cefnogi gwasanaeth gofal wedi'i gynllunio sy'n seiliedig ar werth ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Ym mis Hydref 2021, fe wnaethom gadarnhau'r dyraniad rheolaidd o £170m, wedi'i rannu rhwng byrddau iechyd i helpu i adfer gofal wedi'i gynllunio. Bydd y manylion yn cael eu cyfleu yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022-25, a fydd yn cael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2022. Dyma feysydd ffocws penodol y cynlluniau y dylai'r dyraniad eu cefnogi:

- Gweithredu argymhellion y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol.
- Gwasanaethau cataract rhanbarthol yn unol â chyngor y rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio.
- Cynlluniau rhanbarthol ar gyfer elfennau o wasanaethau orthopedeg sy'n seiliedig ar waith strategol clinigol a wneir ar hyn o bryd, ac sydd i fod i adrodd yn ôl ym mis Chwefror 2022.
- Cryfhau'r gwasanaethau Diagnostig a Delweddu ar sail cyngor a gomisiynwyd gan y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol.
- Gweithredu'r Cynllun Gofal Critigol a ddatblygwyd gan y Rhwydwaith Gofal Critigol.
- Cynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau canser a strôc.

Y nod yw helpu i adfer gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio (mynd i'r afael â'r achosion sydd wedi cronni), yn ogystal â chreu modelau cyflawni cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

**Y gweithlu Iechyd a gofal cymdeithasol**

**10.** Eglurwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn cyfrannu at ddarparu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, ac yn lleihau a rheoli'r gwariant ar staff asiantaeth.

Mae llwyddiant y GIG yng Nghymru yn dibynnu ar ddatblygu gweithlu cynaliadwy, sy'n ymateb yn effeithiol i anghenion iechyd a llesiant poblogaeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i gynyddu'r buddsoddiad mewn addysg a hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, er mwyn darparu gofal iechyd effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel yng Nghymru. Bydd mwy na £260m yn cael ei fuddsoddi yn 2022-23, 15% yn fwy na 2021-22, a fydd yn arwain at y nifer uchaf o gyfleoedd hyfforddi yng Nghymru. Bydd y buddsoddiad yn rhoi hwb pellach i weithlu'r GIG, ac yn helpu i leihau'r angen am staff asiantaeth.

Mae strategaeth gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a lansiwyd ym mis Hydref 2020, yn amlinellu cynlluniau ar gyfer gweithlu cynaliadwy a fydd wedi cael ei drawsnewid ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cynnydd sylweddol yn y setliad Llywodraeth Leol, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ddelio â'r pwysau a welwn ym maes gofal cymdeithasol, ac yn darparu ar gyfer ein hamcangyfrifon presennol o gost cyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol yn 2022-2023, a fydd yn cyfrannu at weithlu gofal cymdeithasol cynaliadwy.

**Gofal sylfaenol**

**11.** Rhowch fanylion y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a buddsoddiad yn yr ystad gofal sylfaenol, a sut mae hyn yn cymharu â'r symiau a ddyrannwyd yn y tair blynedd diwethaf. Wrth ateb y cwestiwn hwn, dywedwch i ba raddau y bydd y dyraniadau hyn yn cyflawni'r nod polisi o symud gofal o ysbytai i leoliadau cymunedol neu ofal sylfaenol.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gofal sylfaenol drwy ddarparu'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru, ac yn 2022-23 byddwn yn adeiladu ar y buddsoddiad y cytunwyd arno a gafodd ei ddarparu yn 2021-22 ar gyfer y contractau gofal sylfaenol.

Mae cynllunio ac ailgydbwyso'r system iechyd a llesiant yn gymhleth ac nid oes modd mesur hyn dim ond drwy ystyried cyllidebau a chofnodi gwariant, yn hytrach mae'n rhaid dangos y newid yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn lleoliadau sylfaenol a chymunedol. Byddwn yn parhau i gefnogi byrddau iechyd i gryfhau eu gwaith i gynllunio'r system gyfan drwy broses yr IMTP.

Mae ein diffiniad o ofal sylfaenol yn eang, fel y nodir yn y Model Gofal Sylfaenol i Gymru. Yn ogystal â'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu contractio gan feddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr cymunedol ac optometryddion, mae ein diffiniad hefyd yn cynnwys yr ystod eang o wasanaethau, gofal a chymorth i iechyd ac i lesiant pobl yn y gymuned ehangach.

Mae Bwrdd Iechyd y GIG yn gyfrifol am wariant ar ofal sylfaenol dros y 3 blynedd diwethaf, sef:

| | |
|---|---|
| 2020-21 | £989.422 miliwn |
| 2019-20 | £947.338 miliwn |
| 2018-19 | £911.739 miliwn |

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys presgripsiynau gan feddygon teulu ac maent yn net o newidiadau i gleifion deintyddol a gafodd eu hadennill.

<u>Cyfalaf Gofal Sylfaenol</u>

Mae tua £72m (gan gynnwys £4.5m fel rhan o gyllideb 2020-21) wedi cael ei ddarparu ar gyfer buddsoddiad mewn llif o 19 o brosiectau gofal sylfaenol a chymunedol, fel rhan o'r broses o weithredu ymrwymiad Symud Cymru Ymlaen. Mae hyn yn ategu'r negeseuon allweddol yn Cymru Iachach – y cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol – ac yn cyflawni'r ymrwymiad yn Ffyniant i Bawb i fuddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal integredig.

Ers i’r rhaglen gael ei sefydlu yn 2017, mae tua £54m wedi cael ei ddyrannu ar gyfer prosiectau – £48m o’r ffigur hwn dros y tair blynedd diwethaf (darllenwch y proffil isod).

Ym mis Rhagfyr 2021, o blith yr 19 o gynlluniau, roedd 7 wedi cael eu cwblhau, roedd 5 ar waith, ac roedd 7 ar wahanol gamau’r broses o ddatblygu achos busnes. Mae wedi cymryd mwy o amser na’r disgwyl i gyflawni’r rhaglen, wrth ystyried yr amser i ddatblygu achosion busnes ac effaith anochel Covid ar gynnydd y gwaith.

Mae’r rhaglen waith yma’n parhau i ddatblygu o ran y ffordd y mae cyfuniad o wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill yn cael eu darparu ar y cyd. Er y bu pwyslais ar ystad bresennol practisau cyffredinol, mae’r amrywiol gynlluniau wedi cydweithio ar draws portffolios, y sector iechyd, awdurdodau lleol a’r sector tai – nid yn unig o ran datblygiadau newydd, ond hefyd o ran ailddefnyddio ac ailddatblygu'r asedau presennol. Mae’r gwaith hwn wedi ystyried effaith darparu gwasanaethau’n nes at gartrefi pobl mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys canol trefi.

I allu cyflwyno'r rhaglen hon yn llawn, rydym yn ystyried y posibilrwydd o gael trefniadau benthyca er mwyn hwyluso cyfrannau pellach o wariant cyfalaf dros gyfnod o bum mlynedd.

Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

- Mae’r dyraniad Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i fyrddau iechyd yn ariannu eu hymrwymiad contractiol â chontractwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer darparu gwasanaethau practis meddygon teulu i gleifion.

- Mae Llywodraeth Cymru o blaid symud gwasanaethau o ofal eilaidd canolog i leoliadau gofal cymunedol a sylfaenol lleol, fel rhan o’n hagenda gofal iechyd darbodus. Dylai byrddau iechyd fod yn cynllunio ac yn cefnogi'r broses o symud gwasanaethau gyda chyllid yn dilyn dyraniadau unedig i ofal sylfaenol a chymunedol.

Cyllid Clystyrau

- Rydym yn dangos ymrwymiad i gynllunio ar lefel clwstwr drwy ddyrannu £20 miliwn y flwyddyn i glystyrau er mwyn iddyn nhw fuddsoddi yn eu hatebion eu hunain i ddiwallu anghenion iechyd a llesiant eu poblogaeth leol.
- Cynllunio a darparu ar lefel clwstwr yw’r allwedd i ddatgloi atebion arloesol ar gyfer gwasanaethau lleol cynaliadwy a gwella mynediad at y gofal iawn, ar yr adeg iawn gan y ffynhonnell iawn.

**Gofal cymdeithasol**

**12.** Amlinellwch y dyraniad arfaethedig ar gyfer gofal cymdeithasol, gan gynnwys:
a. Unrhyw gyllid ychwanegol a nodwyd ar gyfer 2022-23, a sut bydd y cyllid hwnnw’n cael ei dargedu.

Fel y nodwyd uchod mae cronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol, sydd werth £45m, wedi cael ei sefydlu ar gyfer 22-23. Bydd y gronfa’n cynyddu i £60m erbyn 2024-25, a bydd yn cynyddu’r

cyllid sydd ar gael i hybu diwygiadau a gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol. Mae hyn yn ategu'r cynnydd sylweddol a ddarparwyd drwy'r setliad Llywodraeth Leol.

Drwy'r Gronfa byddwn yn buddsoddi:

- £10m yn 2022-23 i baratoi at gyflawni ein hymrwymiad i ddileu elw preifat yn sgil gofalu am blant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor nesaf y Senedd; a
- £3m ychwanegol yn Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2022-23 i barhau i ehangu cofrestriad proffesiynol y gweithlu gofal cymdeithasol, ac i ddarparu cymorth parhaus i sefydlogi ac adfer y sector drwy gyflawni'r Strategaeth Gweithlu ar y Cyd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn sefydlu hybiau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol i gyfrannu at yr agenda atal ac ymyrraeth gynnar, yn ogystal ag yn y gwaith parhaus o dan Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru i fwrw ymlaen â chamau gweithredu i ategu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, ac i ddarparu rhagor o gymorth i grwpiau fel gofalwyr di-dâl.

Fel sydd wedi cael ei nodi uchod, yn 2022-23 bydd cronfa gyfalaf newydd – sydd werth £50m – yn cael ei lansio ar gyfer gofal cymdeithasol i helpu i gyflawni ymrwymiadau allweddol y rhaglen lywodraethu, gan gynnwys datblygu 50 o hybiau cymunedol lleol a chryfhau'r trefniadau i helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ac ailgydbwyso'r ystad gofal preswyl. Bydd y dyraniad cyfalaf hwn ar gyfer gofal cymdeithasol yn galluogi Llywodraeth Cymru i gael dylanwad uniongyrchol ar drawsnewid y seilwaith gofal cymdeithasol, yn unol â dyheadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a 'Cymru Iachach'.

**b.** Sut bydd y dyraniadau yn sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref.

Bydd y cyllid yn helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth a mwy o gyfeiriad polisi o ran modelau cyflawni a chomisiynu mewn perthynas â gofal cartref; cysylltu ag offer a thechnoleg gynorthwyol, a rhyngweithio â gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ac ailalluogi.

**c.** <u>Pa gymorth y bydd y Gyllideb Ddrafft yn ei ddarparu i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys tystiolaeth o wariant penodol ar ofal seibiant.</u>

Yn 2022-23, bydd £3 miliwn yn cael ei dyrannu'n benodol i gynyddu'r cyfleoedd i ofalwyr di-dâl gael seibiant a chymryd hoe. Gan adeiladu ar y £3 miliwn o gyllid seibiant eleni i awdurdodau lleol, bydd yr arian hwn yn annog arloesedd ac yn helpu mwy o ofalwyr di-dâl i ganolbwyntio ar eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Bydd gofalwyr di-dâl hefyd yn elwa o'n dyraniad cyllid blynyddol o £1.245m; parhad y Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r cymorth gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Rydym hefyd yn parhau i weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i gyflwyno prosiect cerdyn adnabod cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr Ifanc, gyda chyllid o £200,000.

Bydd hyn yn cyd-fynd â chyllid yng nghynllun grant 2020-23 y Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, a chymorth drwy fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'u ffrydiau cyllido sydd o fudd i ofalwyr di-dâl o bob oed.

**d.** Mesurau yn y Gyllideb Ddrafft a fydd yn gwella cynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys cyfrannu at sicrhau parch, cyflog, a thelerau ac amodau sy'n gydradd â'r gweithlu gofal iechyd.

- Mae'r cynnydd sylweddol yn y setliad Llywodraeth Leol yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ymateb i'r pwysau a welwn ym maes gofal cymdeithasol. Mae'n paratoi ar gyfer ein hamcangyfrifon cyfredol o gost cyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol yn 2022-2023. Rydym hefyd wedi trosglwyddo £5m o gyllid y grant gweithlu yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a gafodd ei gynyddu y llynedd i helpu Awdurdodau Lleol i symud tuag at dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

- Yn ogystal â'r gronfa newydd ar gyfer Diwygio Gofal Cymdeithasol, sydd werth £45m, byddwn hefyd yn cadw cyllideb sylfaenol o £45m ar gyfer Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

**e.** Effaith ddisgwyliedig ardoll iechyd a gofal cymdeithasol y DU, yn enwedig unrhyw gyllid ychwanegol neu ganlyniadol.

Cafodd setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf ei amlinellu yng nghyllideb ac adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ar 27 Hydref. Roedd hyn yn adlewyrchu symiau canlyniadol Barnett a oedd yn deillio o benderfyniadau gwariant yn Lloegr, gan gynnwys y rheini a oedd yn cael eu hariannu gan yr ardoll newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf yn pennu sut mae unrhyw adnoddau ychwanegol yn cael eu defnyddio yng Nghymru yn unol â'n blaenoriaethau datganoledig, gan gadarnhau y bydd cyllid ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn dal yn flaenoriaeth graidd yn ein paratoadau ar gyfer y gyllideb.

**13.** Gofynnir i chi gadarnhau a yw'r dyraniad ar gyfer gofal cymdeithasol yn ddigon i fodloni holl asesiadau gwariant safonol yr awdurdodau lleol ar gyfer 2022-23, ac egluro sut byddwch chi'n monitro gwariant awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cyllid sy'n cael ei ddarparu drwy'r setliad ar gyfer 2022-23 i gydnabod y pwysau ar ofal cymdeithasol yn ddigon i ddelio â'r pwysau cyllid ar awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r setliad llywodraeth leol yn un heb ei neilltuo, sy'n golygu mai'r awdurdodau sydd i benderfynu sut maen nhw'n gwario'r cyllid hwn, er mwyn diwallu anghenion

a blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, gan gydnabod hyn, drwy'r setliad hwn rydym yn cyfeirio swm drwy elfen gofal cymdeithasol y fformiwla sy'n cyfateb i lefel y pwysau a amlinellwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'r asesiad o'r costau ychwanegol i awdurdodau lleol yn sgil cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal. Mae hyn yn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddosrannu yn y ffordd fwyaf teg, er mwyn ymateb i'r pwysau ar draws y 22 awdurdod lleol. Gan fod y setliad llywodraeth leol yn un heb ei neilltuo, nid oes cynlluniau i fonitro'n benodol unrhyw elfen o wariant awdurdodau lleol yng nghyswllt y cyllid sydd wedi'i gynnwys yn y setliad hwn.

**Iechyd Meddwl a Llesiant**

**14.** Esboniwch sut mae'ch blaenoriaethau ar gyfer iechyd meddwl a llesiant yn cael eu hadlewyrchu yn y Gyllideb Ddrafft, a ble gellir gweld y gwariant a ddyrannwyd/rhagamcanol ar gyfer y blaenoriaethau hyn. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor yn falch o gael manylion am ddyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft sy'n ymwneud â'r canlynol:
a. Gwasanaethau iechyd meddwl (gan gynnwys Cronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl, a sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn hwyluso ymyrraeth gynharach a gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl).
b. Iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.
c. Dementia.
d. Awtistiaeth.
e. Gordewdra/rhoi 'Pwysau Iach, Cymru Iach' ar waith.

a. a b. <u>Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc</u>
Byddwn ni'n parhau i roi blaenoriaeth i iechyd meddwl a llesiant yn 2022-23, ac i gefnogi hyn byddwn yn darparu £50m ychwanegol yn y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y cynnydd hwn yn codi i £90m erbyn 24-25.

Ar gyfer 22-23, bydd y ffigur hwn yn cynnwys tua £25m a fydd yn helpu i integreiddio gwasanaethau a pholisïau iechyd meddwl yn uniongyrchol. Bydd swm sylweddol yn cael ei fuddsoddi yn y GIG fel rhan o hyn. Dim ond un elfen o system ehangach yw cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl rheng flaen – system sydd hefyd yn cefnogi gwaith atal sylfaenol ym maes iechyd y cyhoedd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a ffactorau amddiffynnol eraill, fel helpu pobl i aros mewn swydd.
Bydd y £50m a fydd yn cael ei dyrannu yn gwneud cyfraniad sylweddol i gefnogi ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i roi blaenoriaeth i ailgynllunio gwasanaethau i wella gwaith atal, i fynd i'r afael â stigma, ac i hybu dull gweithredu ar gyfer cymorth iechyd meddwl sy'n sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at y cyngor a'r gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn.

Fel rhan o'r £50m o gynnydd yng nghyllid yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, byddwn yn darparu tua £8m y flwyddyn nesaf i helpu i weithredu Trefniadau Amddiffyn Rhyddid/Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 y DU, sy'n cefnogi hawliau pobl nad oes ganddynt y galluedd meddyliol (er enghraifft oherwydd anaf i'r ymennydd, strôc neu ddementia) i gydsynio i'w trefniadau iechyd a/neu ofal cymdeithasol a thriniaeth.

Mae mwy yn cael ei fuddsoddi hefyd mewn cefnogi iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc yn y portffolio Addysg, ac mae £5.5m o gynnydd yn cael ei dyrannu ar gyfer 2022-23, a fydd yn codi i

£11.5m erbyn 2024-25. Bydd yr adnodd ychwanegol hwn yn cynnwys cyfeirio cymorth at y dull gweithredu ar sail system gyfan ar draws iechyd ac addysg.

Byddwn yn parhau i weithio ar draws y llywodraeth i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl wrth gefnogi iechyd meddwl ar draws portffolios, gan wneud yn siŵr bod cefnogi a diogelu iechyd meddwl yn ffactor allweddol mewn unrhyw benderfyniadau buddsoddi rydym yn eu hystyried.

Mae pandemig Covid wedi rhoi pwysau cynyddol ar nifer o wasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc (CAMHS) a Therapïau Seicolegol i gleifion o bob oed. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd y cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a'r cymhlethdod cynyddol yn parhau wrth i ni ddod allan o'r pandemig.

Ar draws y portffolios Addysg ac Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym yn ymrwymo i gynyddu'r cyllid Iechyd Meddwl ymhellach, dros y tair blynedd nesaf, a fydd yn dod i gyfanswm o dros £100m erbyn 2024-25.

Iechyd meddwl yw'r maes sy'n dal i ddenu'r gwariant mwyaf gan y GIG yng Nghymru. Yn 22-23 bydd y gyllideb Iechyd Meddwl sydd wedi'i chlustnodi, a fydd yn cael ei darparu i Fyrddau Iechyd Lleol, yn fwy na £760m.

c. <u>Dementia</u>
Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018, yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer cymorth a gofal dementia yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y pandemig a'r ymateb angenrheidiol wedi cael effaith ar bobl sy'n byw gyda dementia ynghyd â'u gofalwyr. O'r herwydd, bu swyddogion yn gweithio'n agos gydag aelodau'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia i ystyried effaith y pandemig ac i gytuno ar flaenoriaethau dros y misoedd nesaf. Cafodd y ddogfen hon – sy'n ategol i'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia – ei chyhoeddi ar 21 Medi 2021, ac mae'n cadarnhau ein meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt dros y misoedd nesaf. Rydym wedi gweld pwysau ar draws y system, gan gynnwys mynediad at wasanaethau cymorth diagnostig, a byddwn yn clustnodi cymorth i ddarparu mwy o gapasiti mewn meysydd lle mae galw.

d. <u>Awtistiaeth a chyflyrau Niwroddatblygiadol</u>
Mae cyflwyno Cod Ymarfer Statudol ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth yn un o Ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae adolygiad o'r galw a'r capasiti wrthi'n cael ei gynnal ar gyfer yr holl wasanaethau niwroddatblygiadol, a bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2022. Bydd yr adolygiad hwn yn argymell gwelliannau, gan gynnwys datblygu'r gweithlu. Ar hyn o bryd mae'r cod statudol yn cael ei weithredu gyda £5.73m, drwy gefnogi'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, ac adolygiad o'r galw a'r capasiti. Bydd buddsoddiad pellach o £5.185m yn helpu i ddatblygu a gwella polisïau yn y dyfodol ym maes gwasanaethau niwroddatblygiadol, gan gynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â chymorth ac amseroedd aros ar gyfer asesiad a phrofion diagnostig, a bydd yn ceisio ehangu gwasanaethau i gynnwys cyflyrau fel ADHD.

e. <u>Pwysau Iach: Cymru Iach</u>

Bydd £6.63 miliwn yn cael ei dyrannu yn 22-23 i ategu'r Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, sef cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru i atal a lleihau gordewdra ledled Cymru. Mae'n amlinellu cynllun 10 mlynedd i flaenoriaethu ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad ar bob lefel er mwyn newid ein harferion a hyrwyddo gweithgarwch iach. Mae'r strategaeth yn ymrwymiad allweddol tuag at ddull trawslywodraethol o leihau gordewdra yng Nghymru ar raddfa'r boblogaeth gyfan. Mae'r strategaeth wedi ei datblygu ar sail tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Mae hyn wedi nodi'r angen am ddull newydd o weithredu sy'n cyfuno newid ymddygiad unigolion â newid yr amgylchedd a'r system. Bydd yn defnyddio cyfuniad o gyllid, polisïau a deddfwriaeth i ddatblygu dulliau gweithredu drwy ein hamgylchedd, lleoliadau ac arweinyddiaeth i roi pwyslais cadarn ar atal. Bydd hefyd yn defnyddio dulliau gweithredu wedi eu targedu mewn ardaloedd o amddifadedd, a bydd yn helpu'r rheini sydd eisoes dros eu pwysau neu'n ordew drwy amrywiaeth o wasanaethau atal, ymyrraeth gynnar a gwasanaethau arbenigol. Bydd Cynllun Cyflawni 2022-2024 yn cael ei gyhoeddi ddechrau 2022, a fydd yn nodi dull gweithredu trawslywodraethol.

Drwy'r cyllid, mae yna ddyraniad penodol a fydd yn help i ymgysylltu'n ehangach â phlant a theuluoedd. Dyma rai enghreifftiau:

- Mae Cynllun Peilot ar gyfer Plant a Theuluoedd wedi cael ei ariannu drwy'r cynllun cyflawni, ac mae'n cael ei gynnal mewn tair ardal – Caerdydd, Merthyr Tudful ac Ynys Môn. Bydd y rhaglenni peilot hyn yn mabwysiadu dull o weithredu ar sail system gyfan, sy'n dod ag ymarfer a'r dystiolaeth orau at ei gilydd. Rhan graidd o'r dull hwn yw gweithredu Ymyriadau yn y Cartref, sy'n ddull atal eilaidd ar gyfer teuluoedd â phlant yn y blynyddoedd cynnar, rhwng 3 a 7 oed, sy'n cyd-fynd â'r cyfnod sylfaen.

- Mae £2.9 miliwn o gyllid y flwyddyn tan 2023-2024 wedi cael ei ddarparu i fyrddau iechyd i ddatblygu eu haddasiadau lleol i Lwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan, a fydd yn helpu i ddatblygu a darparu gwasanaethau rheoli pwysau yng Nghymru. Am y tro cyntaf, bydd gwasanaethau arbenigol lefel 3 i blant a theuluoedd yn cael eu darparu ledled Cymru, a bydd gwasanaethau a dulliau gweithredu'n cael eu datblygu ar sail ymyrraeth gynnar ar lefel 2, gan gynnwys dulliau gweithredu penodol drwy wasanaethau mamolaeth. Bydd y llwybr diwygiedig yn darparu cymorth tosturiol i helpu pobl ar eu taith rheoli pwysau, a bydd yn cyd-fynd â'n strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach i annog pobl i wneud dewisiadau iachach ac i fyw bywydau mwy egnïol.

- Mae Gweinidogion wedi cytuno i ddatblygu cynllun newydd ar gyfer ysgolion sy'n cynnig gweithgarwch corfforol dyddiol. Bydd y cynllun yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n benodol i oedran ar gyfer yr ysgol gyfan, a fydd yn seiliedig ar newid ymddygiad ac amrywiaeth o ddulliau y gellir eu haddasu, i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Bydd yn ymateb i dystiolaeth, yn cynnig hyblygrwydd ac yn cynnwys gwerthusiad i asesu canlyniadau iechyd. Bydd hefyd yn cyd-fynd â chynigion i ymestyn y diwrnod ysgol.

- Rydym wedi sefydlu rôl Llysgenhadon Pwysau Iach ledled Cymru. Maen nhw'n gweithio gyda ni i hyrwyddo'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, ac maen nhw'n ysbrydoli'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion y strategaeth gyda phartneriaid ledled Cymru, er mwyn gwrando, ymgysylltu a hyrwyddo ethos a negeseuon y strategaeth am fyw mewn ffordd gadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys Llysgennad Ieuenctid a Llysgennad Teuluoedd sy'n ehangu ein hymgysylltiad ar draws y strategaeth.

**15.** Byddai'r Pwyllgor hefyd yn falch o gael manylion am:

a. Y ganran/cyfran o'r Gyllideb Ddrafft sy'n cael ei dyrannu ar gyfer iechyd meddwl a llesiant, a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

| | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2021-22 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2020-21 £m** |
|---|---|---|---|
| **Wedi'i glustnodi ar gyfer Iechyd Meddwl ym mhrif ddyraniad Byrddau Iechyd** | 760.885 | 726.782 | 711.930 |
| **Cyllideb ganolog Iechyd Meddwl yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (BEL 270)** | 88.212 | 36.260 | 3.029 |
| **Cyfanswm** | 849.097 | 763.042 | 714.959 |
| **Cyfanswm MEG** | 9,801.778 | 8,791.128 | 8,366.438 |
| **Canran** | 8.7% | 8.7% | 8.5% |

Er bod hyn yn cynrychioli darlun o'r hyn a welir yng ngham y Gyllideb Ddrafft bob blwyddyn, mae'n bwysig nodi y bydd Byrddau Iechyd yn gwario mwy na'r swm sydd wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl, gan eu bod hefyd yn ymrwymo cyllid o'u dyraniadau dewisol.

**b.** Unrhyw ostyngiadau neu gynnydd sy'n ymwneud ag elfennau penodol o'r Gyllideb Ddrafft mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol (ee, grantiau'n cael eu lleihau neu eu cynyddu, neu'n cael eu cyflwyno neu eu dirwyn i ben).

Ni fu unrhyw ostyngiadau yn y llinell sylfaen ar draws yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r newidiadau i'r gyllideb ar lefel y Llinell Wariant yn y Gyllideb wedi'u nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm.

**Trawsnewid, arloesi ac integreiddio ym maes gofal cymdeithasol**

**16.** Eglurwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn helpu i ddatblygu 'dull gweithredu ar sail system gyfan', gan integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well, fel y disgrifir yn Cymru Iachach. Yn benodol, eglurwch sut mae'r Gyllideb Ddrafft yn cydbwyso'r angen i ddiwallu'r pwysau presennol ar wasanaethau â'r angen i drawsnewid gwasanaethau a datblygu modelau gofal newydd.
Sut bydd y broses o drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau'n cael cefnogaeth yn y tymor hwy er mwyn gwneud cynnydd parhaus ar yr agenda trawsnewid, i sicrhau pwyslais ar gyflwyno a phrif ffrydio'r gwersi a ddysgwyd o gynlluniau peilot llwyddiannus, ac i osgoi dibynnu ar gyllid ychwanegol parhaus.

Yn 2022 bydd y Gronfa Gofal Integredig bresennol (£89m) a'r Gronfa Trawsnewid (£50m), a weinyddir drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol, yn dod i ben. Ar 1 Ebrill 2022, bydd Cronfa Integreiddio Rhanbarthol newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei lansio. Bydd yn gronfa o bum mlynedd a fydd yn adeiladu ar lwyddiannau'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, yn dysgu o'r profiadau a gafwyd hyd yma, ac yn parhau i sbarduno'r gwaith o integreiddio a thrawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gronfa newydd hon, a fydd hefyd yn cael ei gweinyddu drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau dull gweithredu integredig ar draws y sector, wedi cael ei chydgynllunio gydag amrywiaeth o bartneriaid. Bydd yn cynnwys mecanweithiau fel arian cyfatebol i hyrwyddo cynaliadwyedd a sefydlu ffyrdd newydd o weithio. Bydd y gronfa wedi'i seilio ar gyflwyno modelau gofal a chymorth integredig ac ataliol mor agos â phosibl i'r cartref.

**Gwaith trawslywodraethol/sector ar atal**

**18.** Mae gan Gymru lefelau uchel o glefydau cronig, ac mae pryderon sylweddol am ffyrdd o fyw nad ydynt yn iach. Mae'r pandemig wedi amlygu hyn ymhellach, ac wedi gwaethygu'r sefyllfa. Allwch chi ddangos sut mae'r Gyllideb Ddrafft:

a. Yn sicrhau nad yw'r pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar yn cael ei golli o ganlyniad i'r pandemig.

Er ei bod yn rhaid i ni gydnabod bod digwyddiadau'r 18 mis diwethaf wedi effeithio ar y broses o gyflawni rhai rhaglenni, rydym yn cynnal y buddsoddiad mewn cyllidebau sylfaenol yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a gall y gwariant a fwriedir ar gyfer rhaglenni yn 22-23 ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig, pan fydd hynny'n bosibl.

Mae'r camau gweithredu presennol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd wedi cael eu cyflwyno ar draws yr holl weithgarwch, o ganlyniad i'r cynllunio strategol sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a thrwy ein dull gweithredu iechyd ym mhob polisi (a gefnogir gan broses Asesu'r Effaith ar Iechyd). O ganlyniad i hynny, yn aml iawn nid yw'r gyllideb sy'n cael ei dyrannu'n benodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn gallu cael ei gwahanu oddi wrth gyfanswm gwariant y llywodraeth. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau penodol o wariant y llywodraeth sy'n cyfrannu'n helaeth at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn cynnwys ymyriadau fel rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru.

Mae Dechrau'n Deg yn Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Datblygwyd y rhaglen Dechrau'n Deg ar sail tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Mae pedair elfen graidd, gan gynnwys gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel sy'n cael ei ariannu, mwy o ymweliadau iechyd, cymorth magu plant, a chymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r cyfuniad hwn o gymorth integredig yn hollbwysig i effaith gadarnhaol y rhaglen.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn Dechrau'n Deg, sy'n rhaglen flaenllaw sy'n cyrraedd tua 36,000 o blant dan bedair oed sy'n byw mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ym mhob cwr o Gymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y rhaglen yn gwneud gwahaniaeth i'r plant hynny sy'n defnyddio'r rhaglen. Mae'r cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau yn yr MEG Tai a Llywodraeth Leol. Mae refeniw ychwanegol o £40m wedi cael ei ddyrannu hyd at 2024-25 ar gyfer cymorth a chefnogaeth gynnar – gan gynnwys i raglen Dechrau'n Deg – sy'n

cydnabod pa mor bwysig yw helpu mwy o blant a theuluoedd ledled Cymru, ac i sicrhau ein bod yn helpu ein plant ieuengaf i gael y dechrau gorau mewn bywyd.

Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn amryw o ddulliau atal eraill, ac mae rhai enghreifftiau wedi cael eu nodi isod:

Pwysau Iach: Cymru Iach

Cafodd y strategaeth 10 mlynedd Pwysau Iach: Cymru Iach ei lansio ar 17 Hydref 2019, gyda £6.63m o gyllid y flwyddyn yn cael ei ddarparu ar gyfer 2022-23 i 23-24. Bydd hyn yn help i ddatblygu'r cynllun ac yn parhau â'r ymrwymiadau cyllid presennol. Mae'r dyraniadau cyllid isod yn cefnogi iechyd a llesiant plant:

- Y Gronfa Trawsnewid – Llwybr at Bwysau Iach (£2.9m)
- Gwaith ym maes plant a theuluoedd gyda Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol (£0.6m)
- Darparu Dull Gweithredu sy'n seiliedig ar Systemau (£1.2m)
- Ymyriad wedi'i Dargedu ym maes Plant a Theuluoedd (£0.6m)

Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar

Mae Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn canolbwyntio ar ddatblygu system blynyddoedd cynnar fwy cydgysylltiedig ac ymatebol sy'n rhoi anghenion unigryw pob plentyn wrth galon y system, ac sy'n cynnwys y cyfnod cyn-geni hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (0-7).

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru i ystyried sut i ddarparu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar mewn ffordd fwy systematig, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'n rhaglenni presennol, fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae'r rhan fwyaf o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus bellach yn rhan o'r rhaglen fel cynlluniau braenaru. Rydym yn buddsoddi £6m yn 2022-23 ac yn 2023-24 i gynorthwyo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn holl ranbarthau Byrddau Iechyd Cymru, wrth iddyn nhw brofi elfennau craidd system blynyddoedd cynnar a threialu gwahanol fodelau a dulliau gweithredu amlasiantaethol, gan adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn rhaglenni sydd eisoes yn bodoli, fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

Y Gronfa Iach ac Egnïol yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae ein Cronfa Iach ac Egnïol – sydd werth £5.9m – ar gael dros bedair blynedd (2019-2023), ac mae'n ariannu 16 o brosiectau sy'n ceisio gwella iechyd meddwl a chorfforol drwy alluogi pobl i fyw mewn ffordd iach ac egnïol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gryfhau asedau cymunedol. Rhoddwyd blaenoriaeth i brosiectau sy'n ceisio lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau ymysg un neu fwy o'r grwpiau canlynol:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl ag anabledd neu salwch hirdymor
- Pobl sy'n economaidd anweithgar neu sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig

- Pobl hŷn a’r rheini sydd tua oedran ymddeol.

b. Yn adlewyrchu dull gweithredu cydgysylltiedig sy’n seiliedig ar ‘system gyfan’ i wella iechyd a llesiant pobl, ac yn targedu elfennau allweddol sy’n peri pryder.

Sgrinio

Mae rhaglenni cenedlaethol i sgrinio’r boblogaeth yn enghraifft dda o ymyriadau iechyd ataliol teg ac effeithiol, oherwydd maen nhw’n cael eu cynnig i’r holl boblogaeth gymwys ledled Cymru. Mae tua 45% o gyllideb graidd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei gwario ar raglenni cenedlaethol i sgrinio’r boblogaeth. Mae hyn yn cyfateb i tua £35m yn 2022-23. Amcangyfrif yw’r costau a roddir, gan nad yw cyllid craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei glustnodi, sy’n rhoi hyblygrwydd i’r sefydliad ddyrannu adnoddau yn ôl yr angen.

Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn asesu costeffeithiolrwydd yr holl raglenni cenedlaethol i sgrinio’r boblogaeth cyn mynd ati i wneud argymhelliad. Mae’r asesiad costau yn cynnwys costau profi, diagnosis a thriniaeth, gweinyddu, hyfforddiant a sicrhau ansawdd, i sicrhau bod pob un yn gytbwys yn economaidd o ran y gwariant ar ofal meddygol yn ei gyfanrwydd (hy, gwerth am arian). Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn adolygu polisïau sgrinio bob tair blynedd, oni bai fod tystiolaeth newydd yn dod i’r amlwg yn y cyfamser. Ar ôl i Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU wneud argymhelliad, mae Pwyllgor Sgrinio Cymru yn ystyried beth yw’r ffordd orau o’i roi ar waith yng Nghymru.

Roedd cynlluniau sgrinio’r fron, sgrinio’r coluddyn, sgrinio serfigol, sgrinio ymlediad aortaidd yn yr abdomen, a sgrinio’r llygaid ar gyfer cleifion diabetes wedi cael eu gohirio am ychydig fisoedd ar ddechrau pandemig Covid-19. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael £1m ychwanegol i helpu i adfer y rhaglenni sgrinio ac i leihau’r achosion sydd wedi cronni.

Sgrinio Serfigol

Mae sgrinio serfigol ar gael i bawb â gwddf y groth ac sydd rhwng 25 a 64 oed. Ar hyn o bryd, mae pobl rhwng 25 a 49 oed yn cael eu gwahodd bob tair blynedd. Mae pobl rhwng 50 a 64 oed yn cael eu gwahodd bob pum mlynedd. Ym mis Tachwedd 2015, roedd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU wedi argymell defnyddio prawf sgrinio feirws papiloma dynol (HPV) risg uchel fel prif brawf sgrinio’r rhaglen sgrinio serfigol. Mae’r prawf hwn yn fwy sensitif a phenodol, sy’n golygu bod canlyniad negatif yn fwy cywir. Mae dros 100 o wahanol fathau o HPV, ond dim ond tua 13 math sy’n gysylltiedig â chanser, ac mae’r rhain yn cael eu galw’n fathau ‘risg uchel’. Mae’r prawf newydd yn chwilio am yr 13 math o HPV risg uchel rydym yn gwybod amdanyn nhw, sy’n achosi 99.8% o ganserau gwddf y groth. Ym mis Medi 2018, roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi’r prif brawf HPV ar waith yn llawn yn rhaglen Sgrinio Serfigol Cymru, a Chymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud hynny.

Ym mis Ionawr 2019, roedd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU wedi argymell addasu'r rhaglen i ymestyn y cyfnodau sgrinio o dair i bum mlynedd ar gyfer menywod sy’n cael prawf HPV negatif fel rhan o’u prawf sgrinio arferol. Yng nghyfarfod Pwyllgor Sgrinio Cymru ar 21 Gorffennaf 2020, cytunodd y Pwyllgor i baratoi ar gyfer ymestyn y cyfnod sgrinio ar gyfer menywod sydd wedi cael prawf HPV negatif. Ar ôl i hyn gael ei roi ar waith yn 2022, bydd

menywod rhwng 25 a 49 oed sy’n cael canlyniad negatif yn cael eu hystyried yn fenywod â risg is, ac yn cael eu galw’n ôl ymhen pum mlynedd yn hytrach na thair blynedd. Mae’r newid hwn yn y polisi’n cael ei wneud er budd iechyd menywod, ac nid yw’n gysylltiedig â chost.

Sgrinio’r Coluddyn

Mae Sgrinio Coluddion Cymru yn anfon pecyn sgrinio’r coluddyn i ddynion a menywod rhwng 60 a 74 oed bob dwy flynedd. Y tro cyntaf i Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU argymell sgrinio’r coluddyn ymysg pobl 60-74 oed oedd yn 2011, a chafodd ei roi ar waith yng Nghymru yn dilyn hynny. Fodd bynnag, yn 2012 argymhellodd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU y dylid ehangu rhaglen sgrinio’r coluddyn i gynnwys pobl rhwng 50 a 74 oed. Ar y pryd, cytunodd Pwyllgor Sgrinio Cymru na ellid ehangu rhaglen sgrinio’r coluddyn heb gynyddu capasiti byrddau iechyd i gynnal triniaethau colonosgopi.

Yn dilyn adolygiad o’r dystiolaeth yn 2018, argymhellodd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU fod prawf imiwnocemegol ar ysgarthion (FIT) yn cael ei ddefnyddio yn lle’r prawf gwaiac i ganfod gwaed cudd mewn ysgarthion (gFOBt) a oedd yn cael ei ddefnyddio ar y pryd, a’i gynnig i ddynion a menywod rhwng 50 a 74 oed ar drothwy mor isel â phosibl (lawr i 20µg/g). Y disgwyliad yw y bydd y trothwy sensitifrwydd yn cael ei bennu ar lefel yn ôl y capasiti ar y pryd i gynnal triniaethau colonosgopi, ond gyda’r dyhead i ostwng y trothwy gydag amser. Ers mis Ionawr 2019, mae Sgrinio Coluddion Cymru wedi bod yn darparu FIT ar 150µg/g fel rhan o’r rhaglen sgrinio arferol. Ym mis Medi 2019, cafodd y prawf gFOBt ei ddisodli’n llwyr gan y prawf sgrinio newydd yma.

Roedd paratoadau’n cael eu gwneud i leihau oedran ieuengaf y boblogaeth sgrinio gymwys o 60 i 55 oed o fis Ebrill 2020 ymlaen. Fodd bynnag, roedd y gwaith paratoi yma wedi dod i stop oherwydd pandemig Covid-19, a chafodd y broses o wella rhaglen sgrinio’r coluddyn ei hatal ym mis Mawrth 2020. Mae’r cynlluniau i wella’r rhaglen wedi ailddechrau erbyn hyn, gyda’r bwriad o ostwng yr ystod oedran mewn cynyddrannau llai, a oedd wedi dechrau drwy ostwng i 58 oed ym mis Hydref 2021. Y bwriad yw rhoi’r cam nesaf ar waith drwy ostwng yr oedran dechrau sgrinio o 58 i 55 oed yn ystod 2022-23.

Mae’r nifer sy’n manteisio ar y rhaglen sgrinio wedi cynyddu’n sylweddol ers 2019, pan gyflwynwyd y Prawf Imiwnocemegol ar Ysgarthion (FIT), sy’n haws ei ddefnyddio ac yn fwy cywir. Mae tua 65% yn manteisio ar y rhaglen erbyn hyn (60% yw’r lefel arferol).

Rhaglenni imiwneiddio (ar wahân i Covid)

Mae’r rhaglen genedlaethol ar gyfer ffliw yn dal i gael ei darparu drwy fyrddau iechyd drwy gyllid craidd. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys set fawr o garfannau o’r rheini sy’n cael blaenoriaeth gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu. Cafodd carfannau ychwanegol eu cynnwys ar gyfer 2021-22 er mwyn helpu’r ymateb i’r pandemig. Cafodd ysgolion uwchradd eu cynnwys ar gyfer 2021-22, ac ar hyn o bryd mae dros 57% yn manteisio ar y rhaglen. Roedd y rhaglen hefyd wedi cael ei hehangu yn 2021-22 i gynnwys pobl iach sydd rhwng 50 a 64 oed a gweithwyr gofal sylfaenol. Roedd cynnwys y grwpiau ychwanegol wedi costio £7m ar gyfer 2021-22, a chafodd y

gost honno ei throsglwyddo i fyrddau iechyd. Y bwriad yw parhau i frechu'r grŵp oedran ysgol estynedig yn y dyfodol, fel mesur i leihau trosglwyddiad ffliw.

Mae cyllid ar gyfer rhaglenni eraill i frechu oedolion (fel yr eryr) a brechu plant (fel MMR a HPV) ar gael yng nghyllidebau craidd byrddau iechyd. Roedd rhaglenni imiwneiddio plant wedi parhau fel gwasanaethau hanfodol yn ystod pandemig y coronafeirws, gyda rhieni'n cael sicrwydd priodol a mesurau rheoli heintiau yn cael eu rhoi ar waith gan bractisau. Roedd adroddiadau manylach misol ar imiwneiddio, a ddatblygwyd gan y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi cael eu defnyddio i fonitro effaith COVID-19 ar faint oedd yn manteisio ar y rhaglenni imiwneiddio rheolaidd i blant ledled Cymru. Mae data'n awgrymu bod nifer y plant ifanc a babanod sy'n cael eu brechu wedi aros yn sefydlog drwy gydol y pandemig. Ar gyfraddau brechu rhaglenni mewn ysgolion uwchradd (fel HPV a MenACWY) y gwelwyd yr effaith fwyaf yn ystod y pandemig; bydd rhaglenni dal i fyny yn cael blaenoriaeth yn 22-23.

<u>Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu – Y Blynyddoedd Cynnar</u>

Gwyddom fod datblygiad Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu yn ffordd bwysig o rag-weld cynnydd yn nes ymlaen mewn llythrennedd. Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu gwan ymysg plant yn cael effaith ar amrywiaeth eang o ganlyniadau, gan gynnwys ymddygiad ac iechyd meddwl, llesiant a chyflogadwyedd. Dyna pam rydym wedi blaenoriaethu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant, gan eu bod yn hanfodol ar gyfer canlyniadau hirdymor cadarnhaol. Mae Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, a gyhoeddwyd ar 20 Tachwedd 2020, yn ceisio gwella'r ffordd mae plant yng Nghymru yn cael cefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Rydym yn buddsoddi £3.9m ychwanegol dros dair blynedd i gefnogi'r ymrwymiadau yn Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, er mwyn cyflawni ein hymrwymiad cyffredinol i wella canlyniadau i blant drwy ddull newydd o hyrwyddo a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.

### Lleihau anghydraddoldebau iechyd

**19.** Eglurwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys y rheini sydd wedi gwaethygu oherwydd y pandemig, neu'r rheini sy'n deillio o effaith anghymesur y pandemig neu'r cyfyngiadau symud ar iechyd neu lesiant grwpiau penodol (fel oedolion hŷn, cymunedau BAME, neu bobl ar incwm isel neu sydd fel arall mewn sefyllfa ansicr yn ariannol). Byddai'r Pwyllgor hefyd yn falch o gael manylion ynghylch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn sicrhau bod y bobl fwyaf difreintiedig yn cael blaenoriaeth, a bod mynediad teg at wasanaethau iechyd a gofal mewn ardaloedd gwledig.

Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig, yn dal yn flaenoriaeth Weinidogol ac mae pandemig COVID wedi rhoi hyd yn oed mwy o ffocws ar leihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae ardaloedd gwledig yn aml yn dibynnu ar drefniadau cydweithio ehangach ar gyfer darparu gofal a gwasanaethau i'w cleifion a chreu mynediad cyfartal. Er enghraifft, mae byrddau iechyd Hywel Dda a Phowys wedi datblygu perthynas gref â byrddau iechyd partner i sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg ac arloesedd digidol, gan gynnwys ymgyngoriadau fideo a gweithio o bell, wedi dod yn rhan annatod o ofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol, gan gefnogi pobl i gael gofal a chyngor yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. I'r cleifion hynny a'u teuluoedd, sy'n byw mewn rhannau gwledig o Gymru, mae hyn wedi cael ei groesawu'n fawr, gan leihau amser a chostau teithio.

<u>Anableddau Dysgu</u>
Rydym yn parhau â'n buddsoddiad o £1 miliwn i gynorthwyo gwasanaethau i helpu unigolion sydd ag anabledd dysgu. Roedd y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar y broses o sicrhau holl welliannau'r rhaglen drawslywodraethol Gwella Bywydau.

Bydd y buddsoddiad ychwanegol yma'n mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd y mae pobl ag anableddau dysgu yn eu hwynebu, sy'n arwain at ganlyniadau gwannach na'r boblogaeth gyffredinol o ran ansawdd bywyd a llesiant. Yn benodol, mae pobl ag anabledd dysgu chwe gwaith yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o farw o gyflwr y gellir ei drin.

Dyma fydd y prif flaenoriaethau:

- Cynyddu mynediad at archwiliadau iechyd sy'n lleihau cyfraddau afiachedd a marwolaethau;
- Gweithredu argymhellion yr adolygiad o ddarpariaeth arbenigol i gleifion mewnol sydd ag anabledd dysgu – hynny yw, lleihau hyd yr arhosiad mewn darpariaeth i gleifion mewnol, a helpu pobl i fyw yn eu cymunedau;
- Lleihau marwolaethau y gellir eu hosgoi sy'n digwydd oherwydd cysgodi diagnostig;
- Gwella iechyd pobl sydd ag anabledd dysgu drwy ganfod yn gynt y cyflyrau iechyd y maen nhw'n fwy tebygol o'u cael – ee, cyflyrau anadlol, gastro, cardiaidd, epilepsi, diabetes a dementia cynnar (o 40 oed ymlaen); a
- Gwella gwasanaethau cymunedol, a lleihau nifer yr argyfyngau sy'n arwain at arhosiad hirdymor fel cleifion mewnol.

**TGCh**
**20.** Asesiad o gostau'r broses o gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer technoleg ddigidol a data, fel y mae'n cael ei disgrifio yn Cymru Iachach, gan gynnwys mwy o gefnogaeth ar gyfer gofal digidol a gofal ar-lein.

• Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac arweinwyr digidol ar draws GIG Cymru i rag-weld y gost o gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer technoleg ddigidol a data, fel y mae'n cael ei disgrifio yn Cymru Iachach.
• Mae hyn wedi arwain at fuddsoddi llawer mwy mewn technoleg ddigidol ers i'r adroddiad Cymru Iachach gael ei gyhoeddi yn 2018, drwy gronfa Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn blaenoriaethau digidol.

- Mae’r gronfa hon yn cefnogi trawsnewid digidol a data ar lefel Cymru gyfan, drwy gyllid refeniw a chyfalaf, sy’n cyd-fynd â blaenoriaethau Gweinidogol. Mae’r gronfa’n cael ei rheoli gan Lywodraeth Cymru fel portffolio o weithgareddau a rhaglenni digidol. Mae cyllid yn cael ei ddyfarnu i sefydliadau GIG Cymru drwy broses graffu. Dyma gyfanswm y dyraniad dros y tair blynedd diwethaf:
  - 2019-20 £50m (£25m o refeniw; £25m o gyfalaf)
  - 2020-21 £50m (£25m o refeniw; £25m o gyfalaf)
  - 2021-22 £75m (£50m o refeniw; £25m o gyfalaf)

- Nid ‘costau untro’ yw’r costau o sicrhau trawsnewid digidol, ac maen nhw’n cael eu rhag-weld a’u cynllunio fesul blwyddyn. Dim ond un rhan o broses ehangach o drawsnewid digidol yw’r gronfa hon, ochr yn ochr â buddsoddiad drwy Iechyd a Gofal Digidol Cymru – y sefydliad cenedlaethol sy’n darparu gwasanaethau digidol, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2021. Hefyd, mae sefydliadau GIG Cymru yn buddsoddi mewn trawsnewid digidol drwy eu dyraniadau cyfalaf a refeniw dewisol.
- Ar lefel cynllunio strategol, mae buddsoddi digidol yn cael ei lywio gan y Seilwaith Digidol Cenedlaethol, gan Raglen Seilwaith Digidol Cymru, a chan adnoddau cynllunio eraill fel y Fframweithiau Sicrwydd Seiber sy’n cael eu paratoi gan bob sefydliad. Mae’r rhain yn darparu meini prawf asesu cyffredin a model gweithredu targed cyson ar gyfer holl sefydliadau GIG Cymru, sy’n ei gwneud yn bosibl i gael dull strwythuredig o rag-weld a chynllunio gofynion buddsoddi.
- Mae buddsoddi digidol yn cael ei drafod yn rheolaidd ar lefel genedlaethol drwy Fwrdd Arweinwyr a Grŵp Prif Weithredwyr GIG Cymru, ac ar draws GIG Cymru – er enghraifft drwy grwpiau arwain cydweithwyr ar gyfer Cyfarwyddwyr Cyllid a Chyfarwyddwyr Cynllunio.

- Mae technoleg ddigidol wedi bod yn rhan bwysig o’r ymateb i’r pandemig, sydd wedi cyflymu'r trawsnewidiad digidol a'r broses o ddatblygu gwasanaethau digidol newydd. Er enghraifft: systemau cenedlaethol i helpu i olrhain cysylltiadau a darparu brechlyn; adnoddau i helpu i weithio o bell; gwasanaethau ymgynghoriad fideo; a gwelliannau i'r seilwaith digidol.

- Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o gynnal cyflymder y broses trawsnewid digidol fel rhan o'r adferiad, ac i yrru cynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal yn y dyfodol. Mae wedi ymrwymo i gefnogi nifer o raglenni digidol mawr dros y blynyddoedd nesaf. Er enghraifft: Rhaglen Cofnodion Gofal Nyrsio Cymru, Rhaglen System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru, Adnodd Data Cenedlaethol, Rhaglen e-Ragnodi Cymru Gyfan, ac Ap newydd GIG Cymru drwy’r Gwasanaethau Digidol i Gleifion a’r Cyhoedd.

- Bydd y pwyllgor am nodi bod capasiti’r proffesiwn digidol a gweithlu ehangach y GIG yn gyfyngedig, a’i fod wedi cael ei ymestyn i’r eithaf gan y pandemig. Yn y tymor byr, mae sefydliadau GIG Cymru yn gweithio’n galed i recriwtio a sicrhau’r capasiti sydd ei angen i gyflawni yn erbyn y cyllid a’r buddsoddiad uwch. Yn y tymor canolig, mae adolygiad strategol yn cael ei gynnal o’r gweithlu iechyd digidol a’i ofynion ar gyfer y dyfodol, a bydd yr adolygiad yn gwneud argymhellion yn hanner cyntaf 2022.

**Ymadael â’r Undeb Ewropeaidd**

**21.** Gwybodaeth am unrhyw ddyraniadau cyllideb yn eich portffolio a wneir oherwydd bod y DU wedi ymadael â’r UE.

**Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru**

Yn 2022-23, byddwn yn buddsoddi £1,500,000 ychwanegol (ar sail reolaidd) i gyflawni’r swyddogaethau a’r cyfrifoldebau ychwanegol sy’n ofynnol yn dilyn ymadael â’r UE. Bydd y cyllid yn cael ei rannu rhwng cyllid Craidd a gorfodi’r gyfraith. Bydd y cyllid hwn yn sicrhau bod modd cyflawni gyda’r pwysau parhaus ar sefydliadau mewn meysydd fel gwyliadwriaeth, hawliadau cynhyrchion rheoleiddiedig, mesurau rheoli ffiniau, datblygu polisi ac asesu risg.

**Atodiad A**

**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon - Dyddiad: 13 Ionawr 2022**

**Sylwebaeth ar bob un o'r Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2022-23 a'r Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2021).**

| Cam Gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 8,879.666 | 9,218.565 | 338.899 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ategu'r prif gyllid i'r GIG yng Nghymru yn ogystal â chyllid i Iechyd Cyhoeddus Cymru a chorff y GIG, Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

**Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd**

**Tynnu Addasiadau a Dyraniadau Covid yn ystod y flwyddyn 21-22**

- **£(540.000)m** – dyraniadau COVID yn ystod y flwyddyn

**Dyraniadau newydd ar gyfer 22-23**

- **£786.971m** – cyllid ychwanegol ar gyfer y GIG yng Nghyllideb Ddrafft 22-23
- **£6.353m** – cyllid ychwanegol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru yng Nghyllideb Ddrafft 22-23
- **£29.365m** – cyllid ychwanegol ar gyfer AaGIC (ffigurau comisiynu) yng Nghyllideb Ddrafft 22-23
- **£71.819m** – cyllid adnoddau anghyllidol 22-23 y Gyllideb Ddrafft

**Dyraniadau o fewn yr MEG ar gyfer 22-23**

- **£(15.609m) –** addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymiadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau'r GIG ar gyfer 22-23.

| Cam Gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 155.390 | 102.054 | (53.336) |

Mae'r cam gweithredu hwn yn cefnogi cyllidebau iechyd amrywiol eraill gan gynnwys Gweithlu'r GIG, *Cymru Iachach* a chyllidebau iechyd eraill.

**Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu**

**Tynnu Addasiadau un-tro yn ystod y flwyddyn 21-22**

- **£(28.169)m** o ddyraniad incwm gordal mewnfudo yn ystod y flwyddyn

**Dyraniadau newydd ar gyfer 22-23**
- **£11.500m** – dyraniad ychwanegol ar gyfer BEL Cymru Iachach (cyllid Blynyddoedd Cynnar Gofal Plant)
- **£(5.000m)** – addasiad i linell sylfaen Cymru Iachach - Gwasanaethau Cymdeithasol

**Dyraniadau o fewn yr MEG ar gyfer 22-23**
- **£(31.667m) –** addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymiadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau'r GIG ar gyfer 22-23.

| **Cam Gweithredu: Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG** | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 27.375 | 27.295 | (0.080) |

Mae addysg a hyfforddiant yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau'r GIG yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae'r cam gweithredu hwn yn ategu'r amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnir i gynorthwyo'r gwaith o sicrhau gweithlu cynaliadwy sy'n meddu ar y sgiliau i fynd i'r afael â'r gofynion ar y gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn y cam gweithredu hwn yn talu am y costau ychwanegol a ysgwyddir gan Fyrddau Iechyd Prifysgol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ar gyfer addysgu (derbyn) myfyrwyr meddygol a deintyddol fel rhan o'u hastudiaethau israddedig. Hefyd, mae'n helpu gyda hyfforddiant ar gyfer nifer o leoliadau hyfforddi ôl-raddedig ledled Cymru, gan gynnwys swyddi academaidd clinigol. Mae cyllid o fewn y cam gweithredu hwn hefyd yn ategu dyfarniadau rhagoriaeth glinigol Ymgynghorwyr a roddir am ansawdd, rhagoriaeth a chyfraniadau personol eithriadol.

**Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG**

**Dyraniadau newydd ar gyfer 22-23**
- **£1.311** – dyraniad ychwanegol fel rhan o gomisiynu'r Gweithlu ar gyfer Cyllideb Ddrafft 22-23

**Dyraniadau o fewn yr MEG ar gyfer 22-23**
- **£(1.391m) –** Addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymiadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau'r GIG ar gyfer 22-23.

| Cam Gweithredu: Cefnogi Polisïau a Deddfwriaethau Iechyd Meddwl | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 34.157 | 88.212 | 54.055 |

Mae'r cam gweithredu hwn yn cefnogi amrywiaeth o

- Gamau datblygu a darparu polisïau iechyd meddwl, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), therapïau seicolegol, atal hunanladdiad a hunan-niweidio, cymorth iechyd meddwl amenedigol a chyllid ar gyfer mudiadau'r trydydd sector drwy'r grant iechyd meddwl adran 64

- Deddfwriaethau iechyd meddwl, gan gynnwys Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

- Anghenion gofal iechyd grwpiau agored i niwed, (y rheini a ddiffinnir fel pobl sydd â nodweddion gwarchodedig) gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid, cymorth i gyn-filwyr, gofal iechyd troseddwyr, canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, sipsiwn a theithwyr ac unigolion trawsryweddol.

**Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cefnogi Polisïau a Deddfwriaethau Iechyd Meddwl**

**Dyraniadau newydd ar gyfer 22-23**

- **£50.000m** – dyraniad ychwanegol fel rhan o Iechyd Meddwl ar gyfer Cyllideb Ddrafft 22-23

**Dyraniadau o fewn yr MEG ar gyfer 22-23**

- **£4.055m** Addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Trosglwyddo cyllid i'r gyllideb iechyd meddwl a glustnodwyd, sy'n rhan o ddyraniad byrddau iechyd)

| Cam Gweithredu: Cyflwyno Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 28.725 | 28.585 | (0.140) |

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid camddefnyddio sylweddau yn y cam gweithredu hwn yn cael ei ddyrannu i Fyrddau Cynllunio Ardal drwy fformiwla cyllido, i'w helpu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellir yn ein Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau

'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' a Chynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2016-18, sef y diweddaraf.

**Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau**

**Dyraniadau o fewn yr MEG ar gyfer 22-23**

- **£(0.140m) –** Addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (trosglwyddo dyraniad y GIG ar gyfer 22-23).

| Cam Gweithredu: Asiantaeth Safonau Bwyd | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 5.110 | 5.110 | 0 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru.

Darperir y dyraniad cyllideb yma i dalu costau'r blaenoriaethau gwaith a nodir yng 'Nghytundeb Darparu Gwasanaeth Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru' yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Darperir y cyllid ar y sail y bydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, pan fydd budd ar y cyd, yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'i blaenoriaethau, gan gynnwys cymorth parhaus i gyflawni a gweithredu cynllun statudol i sgorio hylendid bwyd yng Nghymru, fel y'i sefydlwyd gan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Atodol mis Mehefin.

| Cam Gweithredu: Rhaglenni Iechyd y Cyhoedd | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 28.171 | 28.180 | 0.009 |

Mae'r cam gweithredu hwn yn ariannu amrywiaeth o raglenni iechyd y cyhoedd fel Trawsblannu Organau a Meinweoedd, Imiwneiddio, Taliadau i Public Health England sy'n darparu nifer o wasanaethau arbenigol i ddiogelu iechyd a rhywfaint o wasanaethau labordy ymchwil i Gymru, Cychwyn Iach a NICE.

**Esboniad o'r Newidiadau i Raglenni Iechyd y Cyhoedd**

**Dyraniadau o fewn yr MEG ar gyfer 22-23**

- **£0.009m –** Addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymiadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau'r GIG ar gyfer 22-23.

| Cam Gweithredu: Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau Iechyd | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 6.007 | 6.007 | - |

Mae'r cam gweithredu hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod GIG Cymru yn gwbl barod a chadarn i ddelio â'r holl beryglon a bygythiadau a nodwyd mewn Asesiadau Risg Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y risg uchaf o bandemig ffliw a rheoli canlyniadau iechyd digwyddiad terfysgol sy'n cynnwys deunyddiau peryglus.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Atodol mis Mehefin.

| Cam Gweithredu: Datblygu a Gweithredu Gwaith Ymchwil a Datblygu er Budd Cleifion a'r Cyhoedd | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 42.075 | 42.545 | 0.470 |

Mae'r cam gweithredu hwn yn cefnogi gwaith Adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru sy'n rhan o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac sy'n arwain ar faterion strategaeth, polisi, comisiynu, cyllido, rheoli contractau, a llywodraethu ymchwil a datblygu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Drwy ei 'brand allanol', Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Adran Ymchwil a Datblygu yn darparu seilwaith i ategu a chynyddu capasiti mewn Ymchwil a Datblygu, yn rhedeg amrywiaeth o gynlluniau cyllido ymatebol, ac yn rheoli adnoddau i hyrwyddo, cynorthwyo a darparu ymchwil. Mae hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau partneriaeth a thraws-gyllidwr pan fydd y rhain yn dod â manteision i Gymru. Mae'n cefnogi ymchwil drosi sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymchwil iechyd gymhwysol ac ymchwil iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ymchwil i atal, canfod a gwneud diagnosis o afiechydon; datblygu a gwerthuso ymyriadau; a darparu, trefnu a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Adran hefyd yn gweithio i helpu i roi canfyddiadau ymchwil ar waith yn ymarferol.

Mae gan yr Adran gysylltiadau allweddol o fewn Llywodraeth Cymru â thimau Gwyddorau Bywyd ac Arloesi Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru a'r Adran Addysg a Sgiliau. Mae'r Adran hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr sydd â rolau tebyg yng ngwledydd eraill y

Deyrnas Unedig, cynghorau ymchwil y Deyrnas Unedig, cyllidwyr ymchwil eraill a'r Comisiwn Ewropeaidd.

**Esboniad o’r Newidiadau i’r Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Gwaith Ymchwil a Datblygu er Budd Cleifion a’r Cyhoedd**
**Dyraniadau o fewn yr MEG ar gyfer 22-23**

- **£0.470m –** Addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymiadau’r gyllideb).

| Cam Gweithredu: Gofal Cymdeithasol a Chymorth | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 5.335 | 6.035 | 0.700 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer Diogelu ac Eiriolaeth a Gofalwyr Pobl Hŷn a Phobl Anabl.

Mae hefyd yn cyllido rhaglenni gwaith i gynorthwyo gofalwyr i gyflawni eu rôl fel gofalwyr, a chynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain ar yr un pryd. Mae hyn yn ganolog i'r broses o sicrhau bod yr hawliau i ofalwyr yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud gwahaniaeth go iawn i gynorthwyo gofalwyr, ac mae'n cynnwys elfen gref o fuddsoddi i arbed, oherwydd amcangyfrifir bod 96% o'r gofal yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan ofalwyr anffurfiol, di-dâl – gofal a fyddai’n gorfod cael ei ddarparu o gyllidebau gofal cymdeithasol fel arall.

Ym mis Mehefin 2018, lansiwyd cyllid i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu rhaglenni i wella cyfleoedd bywyd pobl anabl ac, yn benodol, y Rhaglen Gwella Bywydau Pobl ag Anabledd Dysgu. Defnyddir cyllid hefyd i fwrw ymlaen â chamau gweithredu yn Fframwaith Gweithredu'r Fframwaith Gofal a Chymorth Integredig ar gyfer Pobl sy'n Fyddar neu sy'n Byw â Cholled Clyw.

**Esboniad o’r Newidiadau i’r Cam Gweithredu Gofal Cymdeithasol a Chymorth**
**Dyraniadau o fewn yr MEG ar gyfer 22-23**

- **£0.700m –** Addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymiadau’r gyllideb).

| Cam Gweithredu: Partneriaethau ac Integreiddio | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mehefin 2021** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |

| £m | | |
|---|---|---|
| 0.526 | 0.526 | - |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid i helpu i integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal, mae hefyd yn cyllido gwelliannau i gyngor ac arweiniad ar ofal iechyd parhaus a ddylai helpu pobl i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt i ddiwallu eu hanghenion iechyd. Mae hefyd yn helpu'r gwaith o ystyried ardoll gofal cymdeithasol a fydd yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru lewyrchus a chydnerth, drwy ystyried opsiynau i ddarparu'r cyllid y rhagwelir y bydd ei angen yn y dyfodol i ateb y gofynion cynyddol am ofal cymdeithasol o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Atodol mis Mehefin.

| Cam Gweithredu: Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 12.715 | 99.715 | 87.000 |

Mae'r rhan fwyaf o'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido'r grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

Mae'r cyllid yn y Cam Gweithredu hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i helpu i gyflawni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 (RISCA), ac i wella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, sy'n cyflawni'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n gwella llesiant ac yn rhoi pobl a'u hanghenion wrth galon yr holl ofal a chymorth. Mae ein hegwyddorion yn cynnwys meithrin ymarfer sy'n hyrwyddo llais a rheolaeth, annibyniaeth, cydgynhyrchu, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar.

Ar gyfer 2022-23 mae grant y gweithlu Gofal Cymdeithasol wedi cael ei drosglwyddo i'r cam gweithredu hwn, yn ogystal â'r gronfa newydd ar gyfer Diwygio Gofal Cymdeithasol.

**Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy**

**Dyraniadau newydd ar gyfer 22-23**

- **£42.000m** – dyraniad ychwanegol fel rhan o Ddiwygio Gofal Cymdeithasol ar gyfer Cyllideb Ddrafft 22-23

**Dyraniadau o fewn yr MEG ar gyfer 22-23**

- **£45.000m –** Addasiad technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymiadau'r gyllideb).

| Cam Gweithredu: Gofal Cymdeithasol Cymru | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 22.613 | 25.613 | 3.000 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar ffurf cymorth grant i Gofal Cymdeithasol Cymru, corff a noddir gan Lywodraeth Cymru.
Cyllidir Gofal Cymdeithasol Cymru i reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, i fagu hyder ymysg y gweithlu, ac i arwain a chefnogi gwelliannau mewn gofal cymdeithasol.

**Dyma rai o’r prif flaenoriaethau:**

- pennu safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth, gan eu gwneud yn atebol am eu gwaith
- datblygu'r gweithlu fel bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau i amddiffyn, grymuso a chynorthwyo'r rheini sydd angen help
- gweithio gydag eraill i wella gwasanaethau ar gyfer meysydd y cytunwyd eu bod yn flaenoriaeth genedlaethol
- pennu blaenoriaethau ar gyfer ymchwil i gasglu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda
- rhannu arfer da â'r gweithlu fel y gallant ddarparu'r ymateb gorau
- darparu gwybodaeth am ofal a chymorth i'r cyhoedd, y gweithlu a sefydliadau eraill.

**Esboniad o’r Newidiadau i’r Cam Gweithredu Gofal Cymdeithasol Cymru**
**Dyraniad newydd ar gyfer 22-23**

- **£3.000m** – Dyraniad newydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru yng Nghyllideb Ddrafft 22-33

| Cam Gweithredu: Cymorth i Blant | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 94.761 | 108.611 | 13.850 |

Mae’r rhan fwyaf o’r cyllid yn y cam gweithredu hwn yn cefnogi'r cynnig gofal plant (y mae’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu arno). Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer Grant Pontio Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n darparu cyllid ar gyfer nifer o fentrau sy'n gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel bod pob plentyn mewn gofal yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phlant eraill. Mae hefyd yn cynnwys y gyllideb Plant Agored i Niwed, sy'n cynorthwyo plant sydd wedi cael eu mabwysiadu i sicrhau eu bod nhw a’u teulu yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau cymorth angenrheidiol i ddechrau eu bywyd teuluol.

**Esboniad o’r Newidiadau i’r Cam Gweithredu Cymorth i Blant**

**Tynnu Addasiadau a Dyraniadau Covid yn ystod y flwyddyn 21-22**

- **£(4.550)m** – dyraniadau COVID yn ystod y flwyddyn (2[il] Atod)

**Dyraniadau newydd ar gyfer 22-23**

- **£16.500** – Dyraniadau newydd fel rhan o Ofal Plant yn y Gyllideb Ddrafft

**Dyraniadau o fewn yr MEG ar gyfer 22-23**

- **£1.900m –** Addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymiadau’r gyllideb).

| Cam gweithredu: CAFCASS Cymru | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mehefin 2021 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £m** | **Newid £m** |
| 13.652 | 14.725 | 1.073 |

Mae Cafcass Cymru yn wasanaeth gweithredol sy'n cael ei arwain gan y galw, ac mae’n darparu gwasanaeth statudol i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae ymarferwyr Cafcass Cymru yn gweithio gyda bron i 9,000 o'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn y system cyfiawnder teuluol, gan sicrhau bod ein hymyriadau'n hyrwyddo llais plant, yn canolbwyntio ar eu hawliau, eu lles a'u budd pennaf er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn ceisio dylanwadu ar y system cyfiawnder teuluol ac ar wasanaethau i blant yng Nghymru, gan ddarparu cyngor o ansawdd uchel i Weinidogion a sicrhau bod anghenion teuluoedd a phlant yng Nghymru yn cael eu hadlewyrchu mewn datblygiadau proses a pholisi.
Ar wahân i gostau staffio a rhedeg y sefydliad, mae'r gyllideb yn darparu cyllid grant i helpu rhieni sydd wedi gwahanu i gael cyswllt â'u plant, ar gyfarwyddyd y Llys Teulu. Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido'r gwaith o ddarparu'r rhaglen Gweithio Gyda'ch Gilydd er Lles Plant, sy'n helpu rhieni sydd wedi gwahanu, neu sydd wrthi'n gwahanu, i reoli eu hymddygiad eu hunain yn well er mwyn sicrhau mai anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant yw’r brif flaenoriaeth.

**Esboniad o’r Newidiadau i’r Cam Gweithredu CAFCASS Cymru**

**Dyraniadau o fewn yr MEG ar gyfer 22-23**

- **£1.073m –** Addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymiadau’r gyllideb).

## HEALTH AND SOCIAL SERVICES

| RESOURCE BUDGET | | | £'000 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Action | BEL No. | BEL Description | 2021-22 Final Budget | Baseline Adjustments | 2021-22 Revised Baseline | 2022-23 MEG to MEG Transfers | 2022-23 Transfers Within MEG | 2022-23 Other Allocations from / Transfer to Reserves | 2022-23 Draft Budget | COMMENTS |
| Delivery of Core NHS Services | 0020 | Core NHS Allocations | 8,129,759 | -440,000 | 7,689,759 | | -47,616 | | 8,499,783 | Agreed technical transfers |
| | | | | | | | | 786,971 | | Draft Budget: additional NHS funding |
| | | | | | | | | 70,669 | | Draft Budget: Provisional Additional Non Fiscal Resource requirement |
| | 0030 | Other Direct NHS Allocations | 269,744 | 0 | 269,744 | | -39,279 | | 230,465 | Agreed technical transfers |
| | 0035 | Digital Health and Care Wales | 0 | 0 | 0 | | 55,732 | | 56,851 | Agreed technical transfers |
| | | | | | | | | 1,119 | | Draft Budget: Provisional Additional Non Fiscal Resource requirement DHCW |
| | 0050 | Health Education Improvement Wales | 261,478 | 0 | 261,478 | | 11,610 | | 302,484 | Agreed technical transfers |
| | | | | | | | | 29,365 | | Draft Budget: additional funding (HEIW commissioning numbers) |
| | | | | | | | | 31 | | Draft Budget: Provisional Additional Non Fiscal Resource requirement HEIW |
| | 0250 | Public Health Wales | 116,320 | 0 | 116,320 | | 6,309 | | 128,982 | Agreed technical transfers |
| | | | | | | | | 6,353 | | Draft Budget: new funding for PHW 22-23 |
| | **Total Delivery of Core NHS Services** | | **8,777,301** | **-440,000** | **8,337,301** | **0** | **-13,244** | **894,508** | **9,218,565** | |
| Delivery of Targeted NHS Services | 0186 | Workforce (NHS) | 34,528 | 0 | 34,528 | | -452 | | 34,076 | Agreed technical transfers |
| | 0060 | A Healthier Wales | 133,826 | -5,000 | 128,826 | | -52,780 | | 87,546 | Agreed technical transfers |
| | | | | | | | | 11,500 | | Draft Budget: Early Years services funding |
| | 0682 | Other NHS Budgets (Expenditure) | 21,070 | 0 | 21,070 | | 12,362 | | 33,432 | Agreed technical transfers |
| | 0682 | Other NHS Budgets (Income) | -53,000 | 0 | -53,000 | | | | -53,000 | |
| | **Total Delivery of Targeted NHS Services** | | **136,424** | **-5,000** | **131,424** | **0** | **-40,870** | **11,500** | **102,054** | |
| Support Education & Training of the NHS Workforce | 0140 | Education and Training | 25,680 | 0 | 25,680 | | -1,201 | | 25,790 | Agreed technical transfers |
| | | | | | | | | 1,311 | | Draft Budget: additional Education & training commissioning funding |
| | 0185 | Workforce Development Central Budgets | 2,225 | 0 | 2,225 | | -720 | | 1,505 | Agreed technical transfers |
| | **Total Delivery of Targeted NHS Services** | | **27,905** | **0** | **27,905** | **0** | **-1,921** | **1,311** | **27,295** | |
| Support Mental Health Policies and Legislation | 0270 | Mental Health | 36,260 | 0 | 36,260 | | 1,952 | | 88,212 | Agreed technical transfers |
| | | | | | | | | 50,000 | | Draft Budget: additional mental health funding |
| | **Total Support Mental Health Policies and Legislation** | | **36,260** | **0** | **36,260** | **0** | **1,952** | **50,000** | **88,212** | |
| Deliver the Substance Misuse Strategy Implementation | 1682 | Substance Misuse Action Plan Fund | 28,725 | 0 | 28,725 | | -140 | | 28,585 | Agreed technical transfers |
| | **Total Deliver the Substance Misuse Strategy Implementation** | | **28,725** | **0** | **28,725** | **0** | **-140** | **0** | **28,585** | |
| Food Standards Agency | 0380 | Food Standards Agency | 3,610 | 0 | 3,610 | | 1,500 | | 5,110 | Agreed technical transfers |
| | **Total Food Standards Agency** | | **3,610** | **0** | **3,610** | **0** | **1,500** | **0** | **5,110** | |
| Public Health Programmes | 0233 | Health Promotion | 9,071 | 0 | 9,071 | | 3,133 | | 12,204 | Agreed technical transfers |
| | 0232 | Targeted Health Protection & Immunisation | 5,870 | 0 | 5,870 | | 722 | | 6,592 | Agreed technical transfers |
| | **Total Public Health Programmes** | | **14,941** | **0** | **14,941** | **0** | **3,855** | **0** | **18,796** | |
| Health Improvement | 0231 | Health Improvement & Healthy Working | 8,514 | 0 | 8,514 | | 870 | | 9,384 | Agreed technical transfers |
| | **Total Health Improvement** | | **8,514** | **0** | **8,514** | **0** | **870** | **0** | **9,384** | |
| Effective Health Emergency Preparedness Arrangements | 0230 | Health Emergency Planning | 6,025 | 0 | 6,025 | | -18 | | 6,007 | Agreed technical transfers |
| | **Total Effective Health Emergency Preparedness Arrangements** | | **6,025** | **0** | **6,025** | **0** | **-18** | **0** | **6,007** | |
| Develop & Implement R&D for Patient & Public Benefit | 0260 | Research and Development | 42,075 | 0 | 42,075 | | 470 | | 42,545 | Agreed technical transfers |
| | **Total Develop & Implement R&D for Patient & Public Benefit** | | **42,075** | **0** | **42,075** | **0** | **470** | **0** | **42,545** | |
| Social Care and Support | 0460 | Safeguarding & Advocacy | 2,365 | 0 | 2,365 | | | | 2,365 | |
| | 0661 | Older People Carers & People with Disabilities | 2,197 | 0 | 2,197 | | 1,473 | | 3,670 | Agreed technical transfers |
| | **Total Social Care and Support** | | **4,562** | **0** | **4,562** | **0** | **1,473** | **0** | **6,035** | |
| Partnership & Integration | 0620 | Partnership & Integration | 227 | 0 | 227 | | | | 227 | |
| | 0700 | Care Sector | 299 | 0 | 299 | | | | 299 | |
| | **Total Partnership & Integration** | | **526** | **0** | **526** | **0** | **0** | **0** | **526** | |
| Sustainable Social Services | 0920 | Sustainable Social Services | 12,715 | 0 | 12,715 | | 45,000 | | 99,715 | Agreed technical transfers |
| | | | | | | | | 42,000 | | Draft Budget: additional Social Services funding |
| | **Total Sustainable Social Services** | | **12,715** | **0** | **12,715** | **0** | **45,000** | **42,000** | **99,715** | |
| Social Care Wales | 0582 | Social Care Wales | 22,613 | 0 | 22,613 | | | 3,000 | 25,613 | Draft Budget: additional Social Services (Social Care Wales) funding |
| | **Total Social Care Wales** | | **22,613** | **0** | **22,613** | **0** | **0** | **3,000** | **25,613** | |
| Supporting Children | 0310 | Support for Childcare and Play | 80,251 | 0 | 80,251 | | | 15,500 | 95,751 | Draft Budget: Allocation of funding Childcare Offer. |
| | 0311 | Support for Children's Rights | 991 | 0 | 991 | | | 29 | 1,020 | Draft Budget: Allocation of £0.29m in 2022-23 in respect of children's rights and funding towards Children in Wales. |
| | 0410 | Supporting Children | 3,865 | 0 | 3,865 | | | | 3,865 | |
| | 1085 | Support for Families and Children | 7,004 | 0 | 7,004 | | | 971 | 7,975 | Draft Budget: Allocation of £0.971m in 2022-23 supporting a range of programmes aimed at helping children and parents. |
| | **Total Supporting Children** | | **92,111** | **0** | **92,111** | **0** | **0** | **16,500** | **108,611** | |
| CAFCASS Cymru | 1268 | CAFCASS Cymru | 13,652 | 0 | 13,652 | | 1,073 | | 14,725 | Agreed technical transfers |
| | **Total CAFCASS Cymru** | | **13,652** | **0** | **13,652** | **0** | **1,073** | **0** | **14,725** | |
| **HEALTH AND SOCIAL SERVICES - TOTAL RESOURCE BUDGET** | | | **9,227,959** | **-445,000** | **8,782,959** | **0** | **0** | **1,018,819** | **9,801,778** | |